Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

All Wales Child Protection Procedures Review Group

Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a Allai Fod Wedi Cael Eu Masnachu

Terfynol:	Terfynol - Gorffennaf 2011
Awdur:	
Gweithredu:	
Adolygu :	

2011

Cynnwys

Acronymau **tudalen 5**
Diolchiadau **tudalen 6**
Pwrpas y cyfarwyddyd **tudalen 6**
Y cyd-destun polisi ehangach **tudalen 8**
Diffiniadau **tudalen 11**

Adran Un

- Problem masnachu plant
  - Pam fod pobl yn masnachu plant tudalen 13
  - Pam fod masnachu plant yn bosib? tudalen 14
  - Sut y caiff plant eu recriwtio a'u rheoli tudalen 15
  - Sut y doir â phlant i'r DU tudalen 17
  - Plant gydag oedolion tudalen 18
  - Plant ar eu pen eu hunain tudalen 18
  - Masnachu plant o fewn y DU tudalen 20
  - Cysylltiadau â maethu preifat tudalen 20

Adran Dau

- Rôl grwpiau a gwasanaethau penodol tudalen 20

- Gwasanaethau Plant tudalen 21
- Heddlu yng Nghymru tudalen 22
- Gwasanaethau Iechyd tudalen 24

- Ysgolion a Dysgu Gydol Oes tudalen 25
- Gwasanaeth Hamdden, Llyfrgelloedd a Pharciau tudalen 26
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid tudalen 26
- Gwasanaeth Erlyn y Goron tudalen 27
- CAFCASS Cymru tudalen 28
- Asiantaeth Ffiniau'r DU tudalen 29
- Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC) tudalen 29
- Y Sector Gwirfoddol tudalen 30
- Y Gymuned Ffydd tudalen 31

- Sefydliadau yng Nghymru a'r DU a fyddai o bosib yn gallu helpu

  - Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru tudalen 32
  - Cyngor Ffoaduriaid Cymru tudalen 32
  - Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein tudalen 33
  - Llinell Cyngor a Gwybodaeth Ynghylch Masnachu Plant yr NSPCC tudalen 34

Adran Tri

- Adnabod ac asesu gwybodaeth tudalen 35
- Atgyfeirio ac Ymarfer Cychwynnol i Gasglu Gwybodaeth tudalen 37
- Ymchwilio i achosion o fasnachu plant tudalen 37
- Trafodaeth/cyfarfod ar strategaeth amlasiantaeth tudalen 41

- Penderfyniad i gyfweld tudalen 43
- Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol tudalen 45
- Mesurau amddiffyn a chymorth arbennig ar gyfer dioddefwyr tudalen 45

Atodiadau

Atodiad 1: Triongl Fframwaith Asesu tudalen 48

Atodiad 2: Siart llif masnachu plant tudalen 49

Atodiad 3: Materion i weithwyr proffesiynol eu hystyried wrth ddiogelu plant a fasnachwyd tudalen 54

Atodiad 4: Cyfarwyddyd arfer da ar gyfer plant a fasnachwyd sydd mewn gofal tudalen 59

Atodiad 5: Deddfwriaeth tudalen 67

Atodiad 6: Camau gweithredu yn dilyn masnachu plant tudalen 68

Atodiad 7: Materion iechyd i'w hystyried gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a fasnachwyd tudalen 70

Atodiad 8: Cyfeiriadau ac Adnoddau Defnyddiol tudalen 77

Acronymau

Arweiniad i Acronymau a Ddefnyddir yn y Ddogfen

ACPO	Cymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu
ARC	Cerdyn Cofrestru Cais
ASUs	Unedau Sgrinio Lloches
BLIDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant
UKBA	Asiantaeth Ffiniau'r DU
CAIU	Uned Ymchwilio i Gam-drin Plant
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CEOP	Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein
CTN	Dod i Sylw (Come To Notice)
CRB	Y Swyddfa Cofnodion Troseddol
CROP	Y Cynghrair dros Ddileu Pimpio
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
CTAIL	Llinell Cyngor a Gwybodaeth ynghylch Masnachu Plant
DCSF	Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (Yr Adran Addysg ers mis Mai 2010)
DoH	Yr Adran Iechyd
ECPAT UK	Rhoi Terfyn ar Buteindra Plant, Pornograffi Plant a Masnachu mewn Plant at Ddibenion Rhywiol yn y DU
GUM	Meddygaeth Genhedlol-Wrinol
ILO	Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol
IND	Y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd
LAC	Plant sy'n Derbyn Gofal
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
NASS	Gwasanaethau Cymorth Lloches Cenedlaethol
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
PSR	Adroddiad Cyn Dedfrydu
UAS	Ceisiwr Lloches ar ei Ben ei Hun

UASC	Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain
UKBA	Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig
UNICEF	Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig
UKHTC	Canolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig
YOS	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Diolchiadau

Hoffai Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ddiolch i Fwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) Caerdydd am ganiatáu i'r grŵp ddefnyddio'i Brotocol Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu Plant a Allai Fod Wedi Cael Eu Masnachu fel sail i'r Cyfarwyddyd Cymru Gyfan hwn. Yn ogystal â hynny, fe hoffem ddiolch i Fwrdd Lleol Diogelu Plant Powys am ganiatáu i ni wneud yr un modd gyda'u Cyfarwyddyd hwy ar Ddiogelu Plant rhag Masnachu – mae eich cyfraniad wedi bod yn hynod werthfawr. Yn ychwanegol, fe hoffem hefyd gydnabod gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgor Amddiffyn Plant Llundain, Rhoi Terfyn ar Buteindra Plant, Pornograffi Plant a Masnachu mewn Plant at Ddibenion Rhywiol yn y DU (ECPAT), UNICEF a'r NSPCC, y mae eu gwybodaeth yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd gynt wedi cael ei hatgynhyrchu gennym yma.

Pwrpas y Cyfarwyddyd

Mae Erthygl 4 yn Natganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn datgan fel a ganlyn:

'Ni ddylai unrhyw un gael ei ddal mewn caethwasiaeth na chaethwasanaeth; dylid gwahardd caethwasiaeth a'r fasnach gaethion ar bob ffurf.'

Roedd *Diogelu Plant a Allai Fod wedi Cael eu Masnachu* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2008 (dogfen y cyfeirir ati fel *Diogelu Plant* drwy'r cyfarwyddyd hwn) yn gosod cyfrifoldeb ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yng Nghymru i ddatblygu protocolau rhyngasiantaethol i roi arweiniad o ran y camau gweithredu lle ceir pryderon bod plentyn wedi cael ei fasnachu, gan gynnwys rhannu pryderon ynghylch diogelwch plentyn. Mae ffocws y cyfarwyddyd hwn ar blant a allai fod wedi

cael eu masnachu o dramor. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na ddylid ystyried masnachu plant fel trosedd yn erbyn plant tramor y doir â hwy i mewn i'r DU, neu rai sydd ar y ffordd i wledydd eraill yn unig. Gall plant a anwyd yn y DU gael eu recriwtio hefyd ar gyfer eu masnachu'n fewnol o fewn y DU ac mae'r egwyddorion ar gyfer diogelu ac amddiffyn lles y plant hyn ac adnabod arwyddion masnachu plant yr un mor wir dan yr amgylchiadau hyn.

Ym mis Mawrth 2009, fe geisiodd Comisiynydd Plant Cymru fesur am y tro cyntaf nifer yr achosion o fasnachu plant yng Nghymru yn ei adroddiad *Ffiniau Pryder*. Fe wnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i helpu i amddiffyn a diogelu'r plant hyn sy'n arbennig o agored i niwed. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Grŵp Masnachu Plant Cymru Gyfan i ystyried sut y gallai gweithredu cenedlaethol helpu trefniadau gweithredu lleol i gyflawni lefelau gwell o ran diogelu ac amddiffyn. Mae cynhyrchu cyfarwyddyd Cymru gyfan i sicrhau gweithredu cyd-drefnedig a chyson yn allweddol i gyrraedd y nodau hyn.

Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i fwriadu i ddarparu cyfarwyddyd ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr o'r holl asiantaethau i'w helpu i fynd ati mewn modd effeithiol i ddiogelu plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion sy'n eu masnachu i mewn i'r DU ac o fewn y DU at ddibenion camfanteisio arnynt. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cydnabod bod datblygu dull amlasiantaeth, sy'n gallu sefydlu ymatebion hirdymor i fynd i'r afael â masnachu plant, yn debygol o fod yn fwy effeithiol na mentrau unigol. Yr egwyddorion craidd y mae'r cyfarwyddwyd hwn wedi'i seilio arnynt yw:

- bod plant sydd, neu a allai fod wedi cael eu masnachu'n blant y camfanteisir arnynt a'u bod mewn perygl yn rhywiol, yn gorfforol ac yn emosiynol, yn y byrdymor a'r hirdymor;

- nad yw plant yn gwneud dewisiadau gwybodus i fynd i mewn i sefyllfa neu aros mewn sefyllfa lle maent yn dioddef camfanteisio ond eu bod yn gwneud hynny o ganlyniad i orfodaeth;

- bod rhaid i'r prif ymdrech o ran gorfodi'r gyfraith fod yn un yn erbyn yr oedolion sy'n masnachu'r plant ac yn eu gorfodi i fynd i mewn i sefyllfaoedd camfanteisiol.

Er mwyn i unrhyw ymyrraeth fod yn effeithiol mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau, yn rhai statudol a gwirfoddol, yn cydweithio'n agos i fonitro gwybodaeth allweddol, adrodd ar yr wybodaeth honno a'i rhannu, a hynny'n rheolaidd. Dylai hyn gynnwys canlyniadau ymarferion casglu cudd-wybodaeth am sectorau lleol lle gallai masnachu plant fod yn digwydd. Gallai achosion o

ganfod dioddefwyr sydd wedi cael eu masnachu gynnwys cynnydd yn nifer y dioddefwyr sy'n dod gerbron, atgyfeiriadau, tystion a chynnydd gydag unrhyw fentrau lleol a chanlyniadau'r mentrau hynny.

Y cyd-destun polisi ehangach

O'r 1af o Ebrill 2009, daeth yn ofynnol i asiantaethau rheng-flaen, a adwaenir fel Ymatebwyr Cyntaf (Asiantaeth Ffiniau'r DU, Yr Heddlu, ALI, NSPCC a Barnardos) atgyfeirio'r holl achosion lle'r oedd amheuaeth bod plant wedi cael eu masnachu i gael eu hasesu gan Awdurdodau Cymwys dynodedig, ac mae'r cyfarwyddyd hwn yn amcanu at gyfrannu at weithredu'n effeithiol y cyfrifoldeb sydd gan y BLIDP am sicrhau:

- cydweithio effeithiol rhwng partneriaid, yn enwedig yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU;
- bod rhaglenni hyfforddi i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill wedi'u sefydlu naill ai fel rhan o hyfforddiant diogelu pant neu fel hyfforddiant ychwanegol;
- bod gweithwyr proffesiynol yn gallu dod o hyd i gyngor ynghylch ymdrin ag achosion o blant sydd wedi cael eu masnachu; ac
- ymgyrchoedd effeithiol i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffynonellau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.

I hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, dylai Prif Weithredwyr yr holl asiantaethau adnabod swyddogion arweiniol, a dylai rolau allweddol y swyddogion hynny gynnwys:

- bod yn rhan o'r grŵp strategaeth/trafodaeth amlasiantaeth pan fo amheuaeth bod plentyn wedi cael ei fasnachu.
- rhoi cyngor i aelodau o'u hasiantaeth hwy eu hunain a gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ardal; a

- darparu fforwm gyda swyddogion arweiniol eraill ar gyfer casglu ystadegau ar lefel leol a chenedlaethol. Gellir defnyddio'r rhain i oleuo strategaethau i atal plant rhag cael eu masnachu ac i ddiogelu a rhoi cymorth i'r plant hynny a adnabuwyd eisoes fel dioddefwyr.

Mae'n rhaid i unrhyw ymateb i amheuaeth o fasnachu plentyn roi sylw i amgylchiadau unigol y plentyn, gan gynnwys ystyried materion iaith, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, anabledd, rhywioldeb a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cydnabod ei bod yn aml yn wir bod cydbwysedd anodd i'w daro wrth lunio cyfarwyddyd. Mae angen i ymarferwyr gael digon o wybodaeth i'w galluogi i gael dealltwriaeth am y maes pwnc, ond nid i'r graddau bod y cyfarwyddyd yn dod yn anhygyrch fel ei fod yn diweddu ar y silff yn casglu llwch. Rydym yn gobeithio ein bod wedi taro'r cydbwysedd cywir. Mae Adrannau 1-3 yn rhoi gwybodaeth i'r darllenydd am gefndir a chyd-destun masnachu plant, yn ogystal â chyfarwyddyd clir o ran yr hyn y mae angen iddynt ei wneud pan eu bod yn wynebu achos o fasnachu plant. Mae'r atodiadau'n cynnwys deunyddiau atodol i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu arfer da wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mewn ymgais i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i adnabod achosion o fasnachu plant ac ymateb iddynt, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi comisiwn i ECPAT UK i ddatblygu adnodd hyfforddiant ar-lein ar fasnachu plant – *In Your Hands* – i helpu i godi ymwybyddiaeth o fasnachu plant a chynorthwyo ymarferwyr i adnabod a diogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu. Gellir cael mynediad at yr adnodd hyfforddiant ar wefan ECPAT UK - http://www.ecpat.org.uk a chlicio ar y dolenni ar gyfer yr adran hyfforddiant i gael yr adnodd sy'n berthnasol i Gymru – neu, os yw'n well gennych, mae copïau caled o'r CD Rom *In Your Hands* ar gael oddi wrth Janet Martin yn Nhîm Diogelu Plant Llywodraeth y Cynulliad (02920 825600 neu drwy'r e-bost yn Janet.Martin@Wales.GSI.Gov.UK). Lansiwyd yr adnodd hwn ar 18 Hydref 2010 (y Diwrnod Gwrth-Gaethwasiaeth cyntaf yn y DU).

Dylai'r cyfarwyddyd hwn gael ei ddarllen ar y cyd â chyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad, a hefyd ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 ac mae'r rhain i'w cael fan hyn:

- http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/?lang=en
- http://www.ssiacymru.org.uk/index.cfm?articleid=298

O ystyried natur masnachu plant bydd hefyd yn ddoeth i ddarllenwyr ymgyfarwyddo â'r dogfennau cyfarwyddyd canlynol:

- Cylchlythyrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 29/2003 (Guidance on Accommodating Children in Need and their Families – Saesneg yn unig) a 23/2005 (Canllawiau ar Gynorthwyo Teuluoedd sy'n Ceisio Lloches a Phlant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (PPHCLI).
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd Dan Ddeddf Plant 2004 Pennod 9 (9.96 – 9.99).
- Cylchlythyr y Swyddfa Gartref 10/2004.
- Enwaedu Benywod (2005).
- Ffiniau Pryder (2009)
- Arweiniad Llywodraeth y Cynulliad, *Diogelu Plant Rhag Cael eu Cam-Drin Mewn Cysylltiad â Chred Mewn Meddiant gan Ysbrydion* (2008).
- Protocol Cymru Gyfan: Diogelu a Hybu Lles Plant a Phobl Ifanc sydd mewn Perygl o Gael eu Cam-drin trwy Gamfanteisio Rhywiol (2008).
- Yr Hawl i Ddewis: Canllawiau statudol amlasiantaeth ar gyfer delio â phriodas dan orfod (Tach 2008).
- Canllawiau ymarfer amlasiantaeth: Ymdrin ag achosion o Briodas Dan Orfod (Gorffennaf 2009).
- Arweiniad ar Briodas Dan Orfod i awdurdodau lleol a thrydydd partïon perthnasol (Hyd 2009).
- Arweiniad Cymru Gyfan, *Safeguarding Children who might be sexually exploited – Saesneg yn unig* (Ionawr 2011). http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/exploitation/?lang=en
- Diogelu a Hybu Lles Plant sy'n Ceisio Lloches a Ffoaduriaid sy'n Blant ar eu Pen eu Hunain (wrthi'n cael ei ddatblygu).
- Pecyn e-ddysgu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad - gwefan:www.fmelearning.co.uk

Ym mis Mawrth 2011, fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad benodiad cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl cyntaf Cymru – y penodiad cyntaf o'i fath yn y DU. Fe gychwynnodd Bob Tooby yn ei swydd ar ddechrau mis Ebrill ac mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys casglu tystiolaeth bendant ar faint problem masnachu mewn pobl yng Nghymru a chydlynu gwasanaethau a chymorth ar gyfer y rheiny yr effeithir arnynt. Bydd y rôl hefyd yn dwyn ynghyd nifer o asiantaethau gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau iechyd a mudiadau gwirfoddol i adnabod a rhoi cymorth i ddioddefwyr a dod â'r rheiny sy'n gyfrifol o flaen eu gwell.

Ar 14 Hydref 2010, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n datblygu strategaeth newydd i frwydro yn erbyn masnachu mewn pobl. Bydd y strategaeth newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi'n gynnar y flwyddyn nesaf, yn rhoi mwy o ffocws ar ryng-gipio masnachwyr mewn pobl cyn iddynt gyrraedd y DU. Bydd prif elfennau'r strategaeth yn cynnwys:

- cryfhau'r trefniadau cydweithio rhyngwladol gyda gwledydd y mae troseddwyr wedi'u lleoli ynddynt a chyfuno ymdrechion i orfodi'r gyfraith
- adeiladu ar lwyddiant timau diogelu plant ym mhyrth mynediad y DU
- defnyddio Asiantaeth Droseddau Genedlaethol newydd a'i heddlu diogelu ffiniau i ddarparu mesurau atal a gwyliadwriaeth cynyddol ar y ffiniau gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol rheng-flaen i wella'r help ar gyfer dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar i wneud cais i ymrwymo i Gyfarwyddeb Ewrop ar Fasnachu mewn Pobl. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda llywodraethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb.

Diffiniadau

Mae'r ddau derm mwyaf cyffredin ar gyfer symud pobl yn anghyfreithlon, 'masnachu' a 'smyglo', yn wahanol iawn. Fel arfer, mae smyglo pobl yn golygu bod ymfudwyr a cheiswyr lloches yn talu i bobl am eu helpu i fynd i mewn i'r wlad yn anghyfreithlon, ac nid oes perthynas rhyngddynt mwyach wedi hynny, ond mae dioddefwyr a fasnachir yn cael eu gorfodi neu eu twyllo gan y sawl sy'n trefnu i'w hadleoli; er y gall fod rhywfaint o drawsgroesi pan fo smyglo'n troi'n fasnachu. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng masnachu oedolion a masnachu plant, oherwydd pan mai plentyn yw'r dioddefwr nid oes angen i orfodaeth na thwyll fod yn bresennol er mwyn ystyried bod y plentyn wedi cael ei fasnachu. Wrth iddynt gyrraedd y wlad ar ben y daith, fe amddifadir y plentyn neu'r person a fasnachwyd o'u hawliau dynol ac maent yn cael eu gorfodi i ddioddef camfanteisio dan ddwylo'r masnachwr neu'r person sy'n eu rheoli wedi iddynt gael eu danfon neu eu gwerthu iddynt.

Mae *Protocol Palermo I Atal, Llethu A Chosbi'r Arfer o Fasnachu Mewn Pobl, Yn Enwedig Menywod A Phlant, Sy'n Ategu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Troseddu Cyfundrefnol Trawswladol (2000)* (a gadarnhawyd gan y DU ar 06 Chwefror 2006) yn diffinio masnachu mewn pobl fel a ganlyn: (Erthygl 3)

Bydd "Masnachu mewn Pobl" yn golygu recriwtio, trawsgludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn pobl, trwy fygwth neu ddefnyddio grym neu fathau eraill o orfodaeth, trwy gipio, trwy dwyll, trwy ddichell, trwy gamddefnyddio pŵer neu sefyllfa lle mae rhywun yn agored i niwed neu drwy roi neu dderbyn taliadau neu fuddion i gael cydsyniad person sydd â rheolaeth ar berson arall, at ddibenion camfanteisio. Bydd camfanteisio'n cynnwys, fel lleiafswm, camfanteisio ar buteinio pobl eraill neu fathau eraill o gamfanteisio rhywiol, llafur neu wasanaethau dan orfod, caethwasiaeth neu arferion sy'n debyg i gaethwasiaeth, caethwasanaeth neu dynnu organau.

Bydd cydsyniad dioddefwr masnachu mewn pobl i'r camfanteisio bwriadedig a nodir yn is-baragraff (a) o'r erthygl hon yn amherthnasol lle defnyddiwyd unrhyw ddulliau a nodir yn is-baragraff (a).

Bydd recriwtio, trawsgludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn plentyn at ddibenion camfanteisio'n cael ei ystyried yn "fasnachu mewn pobl" hyd yn oed os nad yw hyn yn cynnwys unrhyw un o'r dulliau a nodir yn is-baragraff (a) o'r erthygl hon

Bydd "plentyn" yn golygu unrhyw berson dan ddeunaw oed.

Trwy'r ddogfen hon diffinnir plentyn yn ôl Deddfau Plant 1989 a 2004 fel unrhyw un nad yw eto wedi cyrraedd ei 18fed pen-blwydd. Yn y ddogfen hon, mae 'Plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc'. Fel y nodir yn *Diogelu Plant*, er y gall plentyn 16 oed fod yn byw'n annibynnol a bod mewn addysg bellach, nid yw hyn yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau nac ychwaith ei hawl i gael ei amddiffyn dan Ddeddf Plant 1989.

Mae *Protocol Palermo* (Y Cenhedloedd Unedig, 2000) yn sefydlu plant fel achos arbennig. Ystyrir fod unrhyw blentyn a drawsgludir am resymau camfanteisiol yn ddioddefwr masnach mewn pobl, ni waeth a yw wedi cael ei dwyllo ai peidio. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r ystyriaeth nad yw'n bosib i blant roi cydsyniad deallus.

Hyd yn oed pan fo plentyn yn deall yr hyn sydd wedi digwydd, gall ymddangos fel pe bai'n ufuddhau o'i wirfodd i sefyllfa y mae'n credu ei bod yn cyd-fynd ag ewyllys ei rieni neu'r oedolion sydd gydag ef/gyda hi. Mae'n bwysig bod y plant hyn yn dal i gael eu hamddiffyn.

Adran Un

Problem masnachu plant

Pam fod pobl yn masnachu plant?

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu masnachu er mwyn elw ariannol. Gall hyn fod ar ffurf taliad gan, neu i rieni'r plant ac, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r masnachwr hefyd yn derbyn taliad gan y rheiny sy'n dymuno camfanteisio ar y plentyn unwaith y bydd yn y DU. Caiff rhai gweithgareddau masnachu eu trefnu gan gangiau cyfundrefnol. Mewn achosion eraill mae oedolion neu asiantau unigol yn masnachu plant i'r DU er mantais bersonol iddynt hwy. Gall plant gael eu defnyddio ar gyfer:

- Gwaith rhyw.
- Caethwasanaeth domestig.
- Gwaith mewn gweithdai cyflog isel ac mewn bwytai.
- Twyll cardiau credyd.
- Cardota neu ddwyn o bocedi pobl.
- Gofalu am blanhigion mewn ffermydd canabis anghyfreithlon.
- Twyll budd-daliadau.
- Cludo cyffuriau, gwerthu cyffuriau neu gamarwain yr awdurdodau ar ran oedolion sy'n masnachu mewn cyffuriau.
- Mabwysiadu.
- Rhoi organau.
- Priodas dan orfod

Mewn rhai achosion, gall plant gael eu masnachu i gael eu mabwysiadu y tu allan i'w mamwlad. Gall y rheiny sy'n hwyluso'r trefniadau hyn dwyllo'r awdurdodau sy'n gyfrifol am y broses fabwysiadu ac yn aml gallant gael elw ariannol sylweddol trwy daliadau gan ddarpar fabwysiadwyr nad ydynt o bosib yn ymwybodol o wir amgylchiadau argaeledd plentyn i gael ei fabwysiadu. Gall hyn gynnwys taliad, gorfodaeth neu dwyllo'r rhieni biolegol i ildio plentyn yn ogystal â chipio plant. Mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n amau y gallai plentyn fod wedi cael ei fasnachu er mwyn cael ei fabwysiadu hysbysu'r heddlu.

Pam fod masnachu plant yn bosib?

Mae ffactorau yn eu gwlad eu hunain, a allai adael plant yn agored i gael eu masnachu, yn cynnwys:

- **Tlodi:** dyma'r prif achos sylfaenol sy'n gadael plant yn agored i bobl sy'n dymuno camfanteisio arnynt. Mae teuluoedd yn ystyried bod addewid y sawl sy'n recriwtio o waith/incwm yn ddihangfa bosib o amgylchiadau tlawd. Os nad yw'n dwyn unrhyw fanteision eraill mae ymadawiad plentyn o leiaf yn golygu y bydd un person yn llai i'w fwydo.

- **Diffyg addysg:** mae presenoldeb yn yr ysgol wedi profi'n ddull allweddol o amddiffyn plant rhag pob math o gamfanteisio, gan gynnwys masnachu plant. Mae masnachwyr mewn plant yn addo sicrhau addysg ar gyfer plant nad yw eu rhieni'n gallu fforddio talu ffioedd ysgol neu sydd mewn ardaloedd lle mae'n anodd cael mynediad at ysgolion neu lle mae ansawdd yr ysgolion yn wael.

- **Gwahaniaethu:** gall hyn fod yn seiliedig ar ryw ac ethnigrwydd. Mewn rhai diwylliannau mae disgwyl i ferched wneud aberthau o ran eu haddysg a'u diogelwch er budd y teulu ac maent yn cynrychioli llai o fuddsoddiad i'r teulu gan y bydd eu cyfraniad i'r teulu'n dod i ben pan fyddant yn gadael i briodi (mewn rhai achosion gall priodas ei hun fod yn rhy ddrud i'r teulu). Mae nifer o ddioddefwyr y fasnach mewn plant yn dod o gymunedau lleiafrifol y gwahaniaethir yn gymdeithasol yn eu herbyn ac sydd dan anfantais gymdeithasol yn eu gwlad eu hunain.

- **Agweddau diwylliannol:** ochr yn ochr â'r diwylliant o anghrediniaeth bod masnachu plant yn digwydd (Ffiniau Pryder 2009); gall agweddau diwylliannol traddodiadol olygu weithiau bod rhai plant yn fwy agored i gael eu masnachu nag eraill.

- **Paratoi at ddibenion camfanteisio:** mae plant weithiau'n cael eu masnachu allan o'u gwlad enedigol ar ôl cael eu paratoi at ddibenion camfanteisio. Bu achosion hefyd o ferched a aned yn y DU sydd wedi cael eu masnachu rhwng trefi a dinasoedd, ar ôl cael eu paratoi gan ddynion yr oeddent yn eu hadnabod er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol yn y pen draw.

- **Gwrthdaro teuluol:** gall plant ddewis gadael cartref o ganlyniad i gam-drin domestig a chael eu hesgeuluso.

- **Gwrthdaro gwleidyddol a newid economaidd:** mae'r rhain yn aml yn arwain at sefyllfa lle mae niferoedd mawr o bobl yn symud, ac at erydiad mecanweithiau economaidd ac amddiffyn cymdeithasol, gan adael plant yn agored i niwed.

- **Cyfreithiau a rheoliadau lleol annigonol:** mae masnachu plant yn ymwneud â nifer o wahanol ddigwyddiadau a phrosesau ac nid yw deddfwriaeth wedi aros gyfuwch â'r rhain. Mae gan y rhan fwyaf o wledydd ddeddfwriaeth yn erbyn llafur plant camfanteisiol, ond nid oes gan bob gwlad ddeddfau yn erbyn masnachu plant yn benodol. Hyd yn oed lle ceir deddfwriaeth briodol, yn aml mae'r gwaith o'i gorfodi'n cael ei atal gan ddiffyg blaenoriaethu, llygredigaeth ac anwybodaeth am y gyfraith.

- **Trychinebau naturiol:** gall plant a wnaed yn amddifad ac a ddadleolwyd yn dilyn trychinebau naturiol gael eu targedu a'u symud o'u mamwlad, heb i bobl ymlynu wrth y gweithdrefnau deddfwriaethol angenrheidiol.

Sut y caiff plant eu recriwtio a'u rheoli

Gwyddys fod masnachwyr yn recriwtio'u dioddefwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae rhai plant yn cael eu gorfodi, a allai fod ar ffurf cipio neu herwgydio. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o blant yn cael eu rhwydo mewn ffyrdd tanseiliol:

- Mae plant yn cael addewid o addysg neu waith sy'n cael ei ystyried yn barchus, megis mewn bwytai neu fel gweision domestig.
- Mae rhieni'n cael eu perswadio y bydd eu plant yn cael bywyd gwell yn rhywle arall.

Mae nifer o blant yn teithio gan ddefnyddio dogfennau ffug ac yn achos y rhai nad ydynt yn teithio â dogfennau ffug efallai nad oes ganddynt fynediad at eu dogfennau. Un ffordd y mae masnachwyr yn cadw rheolaeth ar blant sy'n cael eu masnachu yw trwy gadw eu pasbortau a bygwth plant trwy ddweud y byddant yn cael eu halltudio os byddant yn dianc. Trwy greu gau-hunaniaeth i blentyn gall masnachwr gael rheolaeth uniongyrchol ar bob agwedd ar fywyd y plentyn, er enghraifft trwy honni bod yn rhiant neu'n warcheidwad.

Hyd yn oed cyn iddynt deithio gall plant ddioddef amryw fathau o gamd-drin a chamfanteisio i sicrhau bod rheolaeth y masnachwr ar y plentyn yn parhau wedi i'r plentyn gael ei drosglwyddo i ofal rhywun arall. Mae'r mathau hyn o gam-drin wedi amlygu eu hunain fel:

- Fwdw neu ddewindabaeth, a ddefnyddir o bosib i ddychryn plant i feddwl y byddant hwy a'u teuluoedd yn marw os byddant yn dweud wrth unrhyw un am y masnachwyr.
- Atafaelu dogfennau adnabod y plentyn.
- Bygwth dweud wrth yr awdurdodau am y plentyn.
- Trais neu fygythiadau o drais tuag at y plentyn.
- Bygythiadau o drais tuag at aelodau o deulu'r person ifanc.
- Ynysu'r plentyn yn gymdeithasol.
- Cadw'r person ifanc dan glo.
- Dweud wrth rai plant bod arnynt symiau mawr o arian, e.e. am eu teithiau awyr, llety a bwyd, a bod rhaid iddynt weithio i dalu'r dyledion hyn. Fodd bynnag, nid ydynt byth yn ennill digon o arian i wneud hyn.
- Amddifadu'r plentyn o arian.

Gall fod y masnachwr wedi twyllo'r plentyn a'i rieni i feddwl bod y plentyn yn dod i'r DU i gael bywyd gwell ac felly efallai na fyddant wedi cam-drin y plentyn yn gorfforol nac yn emosiynol ar y cam yma yn y broses. Byddant wedi hyfforddi'r plentyn o ran y stori y dylai ei hadrodd wrth yr awdurdodau yn y DU ac wedi rhybuddio'r plentyn i beidio â datgelu unrhyw fanylion y tu hwnt i'r stori, gan y byddai gwneud hynny'n golygu bod y plentyn yn siŵr o gael ei alltudio.

Bydd yn eithriadol o anodd adnabod y plant hyn mewn pyrth mynediad gan ei bod yn bosib na fydd unrhyw arwyddion amlwg o drallod. Mae'r plant yn annhebygol o ystyried eu bod mewn perygl o ddioddef niwed dan ddwylo'r masnachwr. Mae amddifadu plant o'u gwir hunaniaeth, rheoli eu cyswllt â'u rhieni a'u cynnwys mewn troseddau mewnfudo'n rhoi rheolaeth gref a pharhaus i fasnachwyr ar ddioddefwyr sy'n blant.

Lle mae achosion o fasnachu plant yn fewnol wedi dod i'r fei yn y DU, mae'r dioddefwyr fel arfer yn ferched y mae dynion ifanc wedi dod yn gyfaill iddynt. Mae tystiolaeth a gasglwyd oddi wrth deuluoedd gan y Cynghrair dros Ddileu Pimpio (CROP) yn awgrymu bod rhai merched yn cael eu hudo i buteindra pan fo bachgen y maent yn ei adnabod yn dod yn ffrind iddynt neu trwy

gael eu cyflwyno i fachgen hŷn ‘deniadol’. Mae’r merched dan gyfaredd ac yn cael eu hudo’n gynnil i dreulio mwy o amser gyda’u ‘cariad’ ac yn dechrau cymryd amser o’r ysgol ac aros oddi cartref. Mae’r bachgen yn ennill ymddiriedaeth y ferch wrth iddi gael ei pharatoi heb orfodaeth trwy dderbyn rhoddion, profi ffordd ddrud o fyw a defnyddio alcohol a chyffuriau.

Gall eraill gael eu paratoi â gorfodaeth trwy gael eu gorfodi i gydymffurfio â gofynion eu ‘cariad’. Yn y pen draw mae’r ferch yn dioddef camfanteisio rhywiol gan ddynion hŷn, gan rwydwaith o gyflawnwyr, neu gan bimp. Ar y cam hwn efallai y bydd rhai o’r merched wedi dod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol ac yn cael eu dal yn wystl oni bai eu bod yn cael rhyw gyda mwy o ddynion. Tra bo dynion yn camfanteisio’n rhywiol ar y merched gallant gael eu masnachu o un lleoliad i’r llall i’w gwneud yn anodd iddynt ddianc.

Sut y doir â phlant i’r DU?

Mae dwy ffordd y gallai plant ddod i mewn i’r DU; naill ai gydag oedolyn/oedolion yn gwmni iddynt neu fel plant ar eu pen eu hunain.

Mae niferoedd sylweddol o blant yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau plant awdurdodau lleol ar ôl gwneud cais am loches, ac mae rhai hyd yn oed yn cofrestru mewn ysgol am hyd at dymor, cyn diflannu eto. Y gred yw eu bod yn cael eu masnachu allan o’r DU i wledydd Ewropeaidd eraill neu’n cael eu masnachu’n fewnol yn y DU. Fodd bynnag, mae profiad diweddar yn awgrymu, wrth i fasnachwyr gael bod gwiriadau wedi gwella yn y pyrth mynediad mwy megis Heathrow a Gatwick, eu bod yn dechrau defnyddio’r meysydd awyr rhanbarthol llai.

Mae plant a fasnachwyd wedi dod i mewn i Gymru trwy ystod o lwybrau a phyrth mynediad (gan gynnwys y broses ceisio lloches) a chânt eu hatgyfeirio at Wasanaethau Plant gan ystod o asiantaethau. Pan gânt eu cwestiynu ymddengys mai ychydig iawn o wybodaeth sydd gan y rhan fwyaf ohonynt am y sawl/y bobl a ddaeth â hwy i’r Deyrnas Unedig. Lle ceir amheuon y gallai plentyn fod wedi cael ei fasnachu a bod asiantaeth megis Asiantaeth Ffiniau’r Deyrnas Unedig yn amau oedran y plentyn (yn seiliedig ar ei edrychiad), mae cyfraith gartref a rhyngwladol **(Confensiwn Masnachu mewn Pobl yr UE, Erthygl 10) yn datgan bod yn rhaid i blant y mae eu hoedran yn cael ei amau gael mantais yr amheuaeth a bod yn rhaid i’r Awdurdod Lleol dybio mai plant ydynt nes bod eu hoedran wedi cael ei wirio**. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi gofal a chymorth i ddioddefwyr y mae eu hoedran yn cael ei amau ac i’w hamddiffyn nes bod asesiad llawn o’u hoedran wedi cael ei gwblhau gan y Gwasanaethau Plant i ganfod ai plant ydynt ai peidio.

Plant gydag oedolion

Ychydig iawn sy'n hysbys am blant sy'n cyrraedd gydag oedolion, y bydd rhai ohonynt wedi teithio naill ai'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon gyda'u rhieni. Gall eraill gael eu hebrwng i mewn i'r wlad gan oedolion sydd naill ai'n honni bod yn rhieni iddynt neu sy'n datgan eu bod wedi cael caniatâd y rhieni i ddod â'r plentyn gyda hwy. Gall fod rhesymau cyfreithlon dros ddod â phlant i'r DU, er enghraifft i geisio lloches, ymfudo economaidd gyda'u teulu, addysg, ac aduniad gyda theulu neu ffoi o wlad lle mae rhyfel yn digwydd.

I ffrwyno problem ymfudo anghyfreithlon a gwella'r mesurau diogelu plant, fe gyflwynwyd rheoliadau byd-eang newydd mewn perthynas â theithebau ym mis Chwefror 2006. Mae mesurau diogelu wedi cael eu cyflwyno a bellach mae angen ffotograff o'r plentyn ar y deitheb, ynghyd â rhif pasbort yr oedolyn/oedolion sydd wedi cael caniatâd i deithio gyda'r plentyn.

Credir fod rhai plant sy'n dod i mewn i'r DU gydag oedolyn yn gwneud cais am loches wedi hynny gan honni eu bod ar eu pen eu hunain, wedi i'w masnachwr ddweud wrthynt y byddant wedyn yn cael caniatâd cyfreithiol i fyw yn y DU ac yn gymwys i hawlio budd-daliadau lles.

Plant ar eu pen eu hunain

Y diffiniad o Blentyn Sy'n Ceisio Lloches Ar Ei Ben Ei Hun yw plentyn sydd:

yn gwneud cais am loches trwy ei hawl ei hun; ac sydd wedi'i wahanu oddi wrth y ddau riant ac nad yw'n derbyn gofal gan oedolyn sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am wneud hynny. Gall plentyn symud rhwng categori plant sydd ar eu pen eu hunain a chategori plant sydd gydag oedolyn tra bo'u ceisiadau am loches yn cael eu hystyried, e.e. lle mae plentyn yn cyrraedd ar ei ben ei hun ond wedyn yn mynd at aelodau eraill o'r teulu yn y DU, neu fod plentyn yn cyrraedd gyda'i rieni neu berthnasau agos ond wedyn yn cael ei adael ar ei ben ei hun, neu fod y plentyn wedi cael ei fasnachu, neu ei hebrwng gan ddefnyddio papurau ffug gydag oedolyn a oedd yn honni bod yn berthynas.

Dylai Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain gael eu hystyried yn blant yn gyntaf ac mae ganddynt hawl i asesiad, cymorth ac i gael eu hamddiffyn yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall a lles y plant hyn sydd bwysicaf. Mae'r plant hyn wedi'u gwahanu oddi wrth eu mamwlad ac nid ydynt yn derbyn gofal nac yn cael eu hamddiffyn gan eu rhieni na gwarcheidwad cyfreithiol. Mae'n ddigon posib bod eu statws, oedran ac amgylchiadau'n ansicr a gallant hefyd fod wedi tystio i, neu brofi digwyddiadau trawmatig, a gallant fod yn dioddef y mathau mwyaf eithafol o golled.

Mae nifer o resymau pam y gallai Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain fod wedi gadael eu mamwlad. Mae rhai o'r rhesymau'n cynnwys:

- eu bod yn ofni cael eu herlid, oherwydd eu crefydd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, barn wleidyddol neu grŵp cymdeithasol;
- bod eu rhieni wedi cael eu lladd, eu carcharu neu wedi diflannu;
- eu bod mewn perygl o gael eu gorfodi i ymladd neu ddod yn blentyn yn y fyddin;
- rhyfel, gwrthdaro;
- tlodi, amddifadedd;
- eu bod wedi cael eu hanfon dramor gan eu rhieni/teulu.

Mae plant ar eu pen eu hunain yn dal i fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol yn yr ardal lle maent yn ceisio cymorth. Mae Adran 20 o Ddeddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu llety ar gyfer plant mewn angen o fewn eu hardal y mae eu hanghenion asesedig yn golygu bod yr ymyrraeth hon yn ofynnol. Os caiff plentyn ei gartrefu dan Adran 20 daw i fod yn 'Blentyn Sy'n Derbyn Gofal'. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Plant 1989 i gynorthwyo "plant mewn angen" a darparu llety ar gyfer grwpiau penodol o "blant mewn angen". Yn dilyn Dyfarniad Hillingdon (2003), mae canllawiau a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd (DoH) (2003) a Chynlluniad Cenedlaethol Cymru (CCC) (2005) yn rhagnodi y dylai cymorth fod yn seiliedig ar yr un gweithdrefnau asesu ag ar gyfer plant sy'n ddinasyddion, fel y nodir yn y "Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd" (CCC a'r Swyddfa Gartref 2001). Gan ddilyn canllawiau ar ôl Dyfarniad Hillingdon, mae Cylchlythyr LAC 29 (CCC 2005) yn rhagnodi fel a ganlyn, "dylai asesiad i ganfod a oes ar blentyn angen llety benderfynu'n gyntaf a yw'r plentyn yn cwrdd ag un neu fwy o'r meini prawf a nodir yn adran 20(1) o'r *Ddeddf Plant* (1989). Mae'r meini prawf hynny fel a ganlyn:

(a) nad oes person sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano
(b) ei fod ar goll neu wedi cael ei adael; neu

(c) fod y person sydd wedi bod yn gofalu amdano'n cael ei atal (boed yn barhaol neu dros dro, ac ni waeth am ba reswm) rhag darparu llety ac/neu ofal addas ar ei gyfer."

Masnachu plant o fewn y DU

Ni ddylid ystyried masnachu plant fel trosedd yn erbyn plant tramor y doir â hwy i mewn i'r DU, neu rai sydd ar y ffordd i wledydd eraill yn unig. Gall plant a anwyd yn y DU gael eu recriwtio hefyd ar gyfer masnachu mewnol o fewn y DU.

Mae achosion wedi'u dogfennu sy'n ymwneud â merched yn eu harddegau, a aned yn y DU, yn cael eu targedu ar gyfer masnachu mewnol rhwng trefi a dinasoedd ar gyfer camfanteisio rhywiol. Caiff achosion o'r fath eu hamlygu gan y Cynghrair dros Ddileu Pimpio (CROP) yn ei bapur, *Trafficking in Our Midst*. Mae'n disgrifio'r modd y mae merched yn cael eu hudo oddi wrth eu teuluoedd i gyflawni gweithredoedd rhywiol gyda dynion hŷn unigol neu grwpiau o ddynion hŷn ac yn cael eu bygwth â thrais os byddant yn gwrthod. Mae mwy o wybodaeth am CROP a'u hymchwil ar gael yn: www.**crop**uk.org.uk

Cysylltiadau â maethu preifat

Mae adegau pan fo rhieni biolegol sy'n bwriadu smyglo'u plant i'r Deyrnas Unedig am amrywiaeth o resymau'n rhoi eu plant yn nwylo masnachwyr yn anfwriadol, ac er bod y masnachwyr yn cytuno â'r contract gyda rhieni biolegol y plentyn, eu bwriad yw camfanteisio ar y plentyn. Gall yr oedolyn mewn senario o'r fath fod yn berthynas bell neu'n ffrind i'r teulu. Mae plant i geiswyr lloches nad yw eu rhieni yn y wlad yma ond a gafodd eu hebrwng i'r wlad gan rywun, ac nad oeddent felly ar eu pen eu hunain pan ddaethant i mewn i'r wlad, wedi'u cynnwys yn y grŵp yma. Prif amcan y masnachwyr hyn yn aml yw cael mynediad at fudd-daliadau a thai.

Gall rhai masnachwyr eu cyflwyno'u hunain fel gofalwyr maeth preifat. Mae Deddf Plant 1989 yn diffinio Maethu Preifat fel trefniant sy'n digwydd pan fo plentyn dan 16 (neu dan 18 os yw'n anabl) yn cael ei leoli am fwy na 28 niwrnod yng ngofal rhywun nad yw'n

berthynas agos, yn warcheidwad nac yn rhywun â chyfrifoldeb rhiant. Caiff perthnasau agos eu diffinio yn y Ddeddf fel rhieni, llys-rieni, siblingiaid, brodyr neu chwiorydd i riant, a theidiau a neiniau.

Adran Dau

Rôl grwpiau a gwasanaethau penodol

Fe wnaeth *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* osod cyfrifoldeb trosfwaol ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLIDP) i ddatblygu canllawiau ar fasnachu plant, ac fe argymhellodd eu bod yn gweithio gydag ystod o asiantaethau i gyflawni mesurau ataliol ac ystyried masnachu plant fel rhan o'r asesiad o anghenion lleol.

Pan fo gan sefydliadau bryderon y gallai plentyn/person ifanc fod wedi cael ei fasnachu, dylid atgyfeirio'r achosion, gan ddefnyddio ffurflenni atgyfeirio y cytunwyd arnynt yn lleol, at y gwasanaethau plant cyn gynted â bod problem, amheuaeth neu bryder yn dod i'r fei ac yn sicr o fewn 24 awr. Gellir gwneud atgyfeiriadau dros y ffôn, trwy fynd yno'n bersonol, trwy lythyr neu drwy ffacs, ond mae'n rhaid anfon atgyfeiriad ysgrifenedig wedyn o fewn 48 awr.

Gwasanaethau Plant

Mae'n rhaid wastad ymdrin â phlant a fasnachwyd, neu blant lle mynegwyd pryderon ynghylch amheuaeth o fasnachu, gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau gofal plant prif ffrwd, gan gynnwys amddiffyn plant lle y bo'n angenrheidiol.

Gall cyfrifoldebau Gwasanaethau Plant (fel sefydliad sy'n un o'r Ymatebwyr Cyntaf) tuag at ddioddefwyr y fasnach mewn plant gynnwys:

- adnabod y swyddog arweiniol ar gyfer masnachu plant yn yr ALl;

- adnabod dioddefwyr pendant/dioddefwyr posib yn unol â pholisïau y cytunwyd arnynt neu dderbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill sydd wedi'u hadnabod;
- cyfrannu at waith rhyngasiantaethol ar y cyd i broffilio dioddefwyr pendant/dioddefwyr posib;
- cynnal cyfweliadau cychwynnol, gan gynnwys cyfweliadau ar y cyd gyda'r heddlu lleol, i asesu risg, niwed a chytuno ar gynlluniau amddiffyn plant;
- rhoi lle diogel i ddioddefwyr pendant/dioddefwyr posib, gan gynnwys llety gan yr ALl;
- darparu gwasanaethau cymorth (e.e. cyngor cyfreithiol, cwnsela);
- monitro Plant Sy'n Derbyn Gofal i chwilio am arwyddion eu bod yn cwrdd â'r masnachwyr, a allai gynnwys monitro galwadau ffôn a darparu amgylchedd cefnogol fel nad yw'r plentyn yn gadael gyda'r masnachwr. Gallai hyn olygu bod angen cymryd camau cyfreithiol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei amddiffyn;
- gweithio gydag asiantaeth arbenigol, megis y Groes Goch Brydeinig neu'r NSPCC, i ganfod perthnasoedd yn y famwlad, a gwirio beth fyddai orau er lles y plentyn, a pha un a ddylai gael aros yn y DU ynteu a yw'n ddiogel i'r plentyn ddychwelyd adref;
- sicrhau bod mudiadau gwirfoddol neu wasanaethau cymorth eraill ar gael os caiff y plentyn ei anfon yn ôl i'w famwlad;
- rhoi cyngor o ran pwy y dylid cysylltu ag ef/â hi ynghylch statws mewnfudo'r plentyn;
- rhoi cymorth i adnabod masnachwyr posib sy'n ffugio bod yn berthnasau; a
- sicrhau cyswllt â'r heddlu a darparu gwybodaeth ar gyfer yr heddlu.

Heddlu yng Nghymru

Dan adran 46 o Ddeddf Plant 1989, pan fo'r heddlu'n pryderu y bydd y plentyn yn debygol o ddioddef niwed oni bai eu bod yn gweithredu, gallant ddefnyddio'u pwerau naill ai i symud plentyn i le diogel neu i atal plentyn rhag cael ei symud o le diogel, er enghraifft ysbyty.

Mae'n bwysig bod swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau a gyflawnwyd gan blant a allai fod wedi cael eu masnachu'n gallu cydnabod ac adnabod achosion o'r fath. Dylid ystyried anghenion lles a diogelwch y plentyn a dylid dilyn prosesau diogelu priodol. Gall y troseddau hyn gynnwys lladradau gan grwpiau o blant, neu'r plentyn yn cyflawni rôl 'garddwr' mewn fferm canabis.

Mae gan yr heddlu yng Nghymru strwythur adnabodedig ar gyfer yr ymateb strategol a gweithredol i fasnachu plant. Caiff y strwythur hwn ei arwain gan Brif Swyddog, gydag uwch swyddog sydd â throsolwg ac arweinwyr gweithredol wedi'u hadnabod ym mhob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth unedig ac ymateb cydradd i adroddiadau ynghylch masnachu plant.

Mae'r Heddlu yng Nghymru'n derbyn na all yr un sefydliad unigol obeithio rheoli'r ymateb i ddioddefwyr posib y fasnach mewn plant ar ei ben ei hun. Mae'r heddlu wedi gwneud ymdrechion i gydweithio'n lleol ac yn genedlaethol i baratoi ar gyfer achosion o fasnachu yr hysbysir yn eu cylch.

Mae pob un o'r Heddluoedd wedi datblygu grŵp ymgynghori sy'n cynnwys ymarferwyr a gwirfoddolwyr o amrywiaeth o sefydliadau, sef Awdurdodau Lleol, sefydliadau Iechyd a Chyrff Llywodraethol ac Anllywodraethol. Mae'r grŵp yma'n cynghori ynghylch cymorth i ddioddefwyr y fasnach mewn plant, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i gasglu cudd-wybodaeth am fasnachu plant. Bydd y grwpiau hyn yn cysylltu â threfn sy'n rhoi trosolwg ar gyfer Cymru gyfan, a byddant hefyd yn chwarae rhan mewn grwpiau Ymgynghori Cenedlaethol.

Yn dilyn cael eu hysbysu ynghylch dioddefwr posib y fasnach mewn plant, bydd yr Heddlu'n ystyried y rhan o'r sefydliad sydd fwyaf addas i ymateb. I ddechrau gallai hwn fod yn swyddog mewn iwnifform. Os yw'n debygol o fod yn ymchwiliad i fasnachu plant, dylid cysylltu â phwynt cyswllt unigol yr Heddlu, a fydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i swyddogion arbenigol ymdrin â'r achos, ar y cyd â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel Ymchwiliad ar y Cyd. Bydd uwch dditectif o'r Heddlu hwnnw'n goruchwylio hyn.

Ym mhob achos yr hysbysir yn ei gylch, bydd yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei atgyfeirio at yr Awdurdod Cymwys. Fe wnaeth y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol sefydlu dau Awdurdod Cymwys sydd ar wahân i'w gilydd ond wedi'u cysylltu â'i gilydd. Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU yn un o'r rhain ond Asiantaeth Ffiniau'r DU yw'r llall, a dyma'r awdurdod cymwys ar gyfer yr achosion hynny sy'n ymwneud â phlant y gallai eu statws mewnfudo fod yn cael ei amau. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, a bydd matrics risgiau'n cael ei gymhwyso iddynt. Rhagwelir y bydd gofal am blant a fasnachwyd yn cael ei reoli gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r Heddlu'n chwarae rhan mewn perthynas â'r risg posib y bydd plant a fasnachwyd yn ei wynebu o ganlyniad i ymdrechion gan droseddwyr i 'adfer' y plant o Ofal Awdurdod Lleol.

Gwasanaethau Iechyd

Gall plant a fasnachwyd ac arnynt angen gofal iechyd eu cyflwyno'u hunain mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mewn clinigau gwasanaeth arbennig sy'n darparu gofal iechyd ar gyfer Ceiswyr Lloches, mewn clinig Meddygaeth Genhedlol-Wrinol (GUM) neu i wasanaethau gofal sylfaenol. Dylai staff mewn derbynfeydd wylio am anghysonderau mewn cyfeiriadau, aneglurder bwriadol a phlant neu ofalwyr yn methu â rhoi manylion y berthynas agosaf, enwau, rhifau ffôn ac ati. Gallai gwirio manylion plentyn tra'i fod yn dal yn yr adran ddynodi a ydynt yn fanylion ffug ai peidio.

Gallai gweithwyr iechyd proffesiynol fod ymhlith y cysylltiadau cyntaf sy'n amau neu'n ymwybodol bod plentyn wedi cael ei fasnachu/wedi diflannu ac maent felly'n allweddol i adnabod plant o'r fath. I ddechrau mae rôl y gweithiwr iechyd proffesiynol mewn perthynas â phlant a fasnachwyd/sydd wedi diflannu'n ymwneud â'r camau adnabod ac atgyfeirio yn y broses, ac nid ag ymchwilio i achosion sydd dan amheuaeth. Fodd bynnag, gall gweithwyr iechyd proffesiynol ddod yn rhan o'r cam ymchwiliadol yn dilyn y cyfarfod strategaeth/trafodaeth amlasiantaeth.

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn amau bod plentyn wedi cael ei fasnachu, dylid atgyfeirio'r achos at y Gwasanaethau Plant. Bydd cynrychiolydd o'r gwasanaethau iechyd yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth/trafodaeth amlasiantaeth a gynullir gan y Gwasanaethau Plant yn dilyn yr atgyfeiriad. Mae gan yr holl Fyrddau Iechyd Lleol Dîm Diogelu Plant a fydd yn cynnig cymorth ac arweiniad i'r holl staff, gan gynnwys cymorth i wneud atgyfeiriad, rhannu gwybodaeth a mynychu cyfarfodydd perthnasol megis cyfarfodydd strategaeth.

Dylai gwasanaethau gynnwys adnabod ac atgyfeirio anghenion iechyd corfforol ac emosiynol dybryd a pharhaus a threfnu archwiliad meddygol cyffredinol, gan y bydd nifer o blant o'r fath wedi profi diffyg gofal iechyd yn eu gwlad eu hunain. Gallant fod wedi bod yn agored i drawma, gallant fod yn feichiog, gall fod arnynt angen gofal cyn-geni, gall fod ganddynt afiechydon sydd heb eu trin a gallant fod yn dioddef diffyg maeth. Dylai pobl ifanc 16-18 oed gael cyngor ynghylch iechyd rhyw a materion cyffuriau ac alcohol hefyd.

Dylai llwybrau gofal (siartiau llif) ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol gael eu datblygu ar gyfer pob agwedd ar faterion sy'n ymwneud â phlant a fasnachwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor i weithwyr iechyd proffesiynol ynghylch sut i reoli achosion.

Ceir mwy o fanylion am rôl gwasanaethau iechyd mewn diogelu a hybu lles plant yn Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd Dan Ddeddf Plant 2004.

Ceir gwybodaeth am faterion iechyd pellach i'w hystyried gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a fasnachwyd yn Atodiad 7.

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Mae gan Ysgolion a Dysgu Gydol Oes rôl bwysig o ran adnabod ac atgyfeirio achosion honedig o gam-drin. Mae rôl staff mewn perthynas â phlant a gam-driniwyd trwy fasnachu plant yn ymwneud â'r camau atal, adnabod ac atgyfeirio. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer staff yr un fath â'r rhai a ddefnyddir mewn achosion amddiffyn plant.

Canfuwyd mewn ysgolion sydd wedi'u lleoli'n agos at byrth mynediad y gallai plant gael eu cofrestru mewn ysgol am dymor cyn cael eu symud i ran arall o'r DU neu dramor. Felly mae angen i ysgolion fod yn effro i'r patrwm yma o gofrestru a dadgofrestru. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr fod yn effro i'r posibilrwydd yma ym mhob ysgol yn y DU. Gall fod achosion o blant o gymunedau sy'n symud o gwmpas: Teuluoedd Sipsiwn, Roma, Teithwyr neu deuluoedd mudol – sy'n mynd ar goll o'r ysgol gyda'i gilydd.

Mae plant sydd wedi profi rhai digwyddiadau penodol yn eu bywydau mewn mwy o berygl o fynd ar goll o'r gyfundrefn addysg. Mae plant a fasnachwyd yn arbennig o agored i niwed. Felly mae angen i ysgolion fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai plentyn sy'n mynd ar goll o'r ysgol fod, neu fod wedi bod yn blentyn a fasnachwyd sy'n byw gyda, neu'n rhedeg i ffwrdd oddi wrth, sefyllfa gamfanteisiol.

Dylai BLIDP ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer monitro lleoliad daearyddol plant a adnabuwyd fel rhai sydd mewn perygl o fynd ar goll o'r gyfundrefn addysg ac mae cyfarwyddyd atodol mewn perthynas â phlant sydd ar goll o'r gyfundrefn addysg i'w gael ym Mhennod 5 o gylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 18/2006 "Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin".

Gwasanaeth Hamdden, Llyfrgelloedd a Pharciau

Mae rôl staff yn y gwasanaeth hwn yn ymwneud yn bennaf ag adnabod ac atgyfeirio. Bydd staff llyfrgelloedd, Parcmyn a staff Canolfannau Hamdden oll yn cael peth cyswllt â phlant a phobl ifanc a chan hynny dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r gweithdrefnau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mae Gwasanaethau Chwarae'n cael cyswllt rheolaidd parhaus â nifer o blant a phobl ifanc agored i niwed ledled Cymru ac mae nifer o blant a phobl ifanc yn ystyried gweithwyr o fewn y Gwasanaethau Chwarae'n drydydd partïon y gellir ymddiried ynddynt a chan hynny maent yn ymdrin â pheth wmbredd o wybodaeth bersonol am blant/pobl ifanc. Fel rhan o'r drefn arferol yn eu gwaith gall staff adnabod patrymau ymddygiad neu fe allant ymdrin â sefyllfa lle mae gwybodaeth yn cael ei datgelu wrthynt yn uniongyrchol.

Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Gall staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) ddod ar draws plant o dramor neu blant eraill sydd wedi cael eu masnachu. Gall plant a fasnachwyd fod yn gyndyn o ddatgelu amgylchiadau'r camfanteisio y maent yn ei ddioddef neu amgylchiadau eu dyfodiad i'r DU am eu bod yn ofni y bydd y masnachwr, y perchennog neu'r 'pimp' yn dial arnynt, neu am eu bod yn teimlo teyrngarwch ar gam i'r bobl hynny. Ceir achosion pan fo plant wedi cael eu cyhuddo o dramgwyddau troseddol, er enghraifft pan eu bod yn gysylltiedig â ffermydd canabis. Dylai gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf ac unrhyw weithwyr eraill yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod yn arbennig o effro i'r materion hyn yn ystod y broses asesu ac yn ystod unrhyw ryngweithiadau â'r person ifanc dan sylw wedi hynny.

Os nad yw'r plentyn yn hysbys i Dîm Gofal Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod y plentyn yn dymuno hawlio lloches dylai'r aelod perthnasol o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wneud atgyfeiriad at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn ei chymhwyster fel Ymatebydd Cyntaf yn atgyfeirio'r hawliad am loches at Asiantaeth Ffiniau'r DU neu Ganolfan Masnachu mewn Pobl y DU.

Mae'n arbennig o bwysig bod cyswllt a chyfathrebu da rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Thîm y Gwasanaethau Cymdeithasol os bu cais gan Lys Barn i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid baratoi Adroddiad Cyn Dedfrydu ar berson ifanc sy'n wladolyn tramor/ceisiwr lloches.

Dylai gwybodaeth berthnasol gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei chynnwys mewn unrhyw asesiad perthnasol gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid er mwyn hysbysu'r Llys perthnasol neu'r asiantaeth berthnasol at ddibenion dedfrydu a chynllunio.

Os bydd person ifanc yn derbyn unrhyw lefel o ymyrraeth statudol gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael gwahoddiad i roi mewnbwn a chyfrannu at y prosesau cynllunio ac adolygu. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc a allai dderbyn dedfrydau o gaethiwed ac mae hefyd yn berthnasol yn achos pobl ifanc sy'n derbyn ymyriadau gwirfoddol gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Mae canllawiau polisi wedi cael eu cyhoeddi gan Wasanaeth Erlyn y Goron ynghylch erlyn achosion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc fel dioddefwyr troseddau a thystion i droseddau ac, o dan amgylchiadau priodol, fel amddiffynyddion. Maent yn nodi polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn rhoi arweiniad i erlynyddion at ddibenion sicrhau, pan eu bod yn ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phlant, bod y plentyn yn cael cymorth priodol ac y rhoddir ystyriaeth i'r hyn sydd orau i'r plentyn os bydd erlyniad troseddol yn mynd rhagddo.

Mae darpariaethau penodol yn y Cod i Erlynyddion y Goron (www.cps.gov. uk/victims_witnesses/further_info) i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu trin fel troseddwyr yn amhriodol. Mae paragraffau 8.8 ac 8.9 o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i erlynydd y Goron ystyried buddiannau plentyn neu berson ifanc wrth benderfynu a yw er lles y cyhoedd i'w erlyn. Nid yw achosion sy'n ymwneud â phlant ond yn cael eu hatgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer erlyniad fel arfer os yw'r plentyn eisoes wedi derbyn cerydd a rhybudd terfynol. Mae ceryddon a rhybuddion terfynol wedi'u bwriadu i atal pobl rhag aildroseddu.

Gellir ystyried bod defnyddio plentyn mewn menter droseddol yn fath o gam-drin plant. Bydd plant a allai fod wedi cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn puteindra yn cael eu trin gan Wasanaeth Erlyn y Goron fel plentyn sy'n cael ei gam-drin a dioddefwr y mae arno/arni angen help, yn hytrach nag fel amddiffynnydd. Dylai ymarferwyr gyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn Diogelu Plant. Bydd yr un ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny sy'n cael eu gorfodi i gyflawni troseddau neu'n cael eu defnyddio gan oedolion i gyflawni troseddau. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn pobl sy'n trefnu puteindra ac sy'n elwa'n ariannol o gam-drin plant.

Mae canllawiau manylach i erlynyddion yn ymhelaethu ar y darpariaethau hyn. Mewn achosion lle mae tystiolaeth bod person ifanc wedi cyflawni trosedd mewn sefyllfa lle'r oedd dan orfodaeth, er enghraifft pan fo'r plentyn wedi cael ei fasnachu, bydd yn rhaid i'r erlynydd ystyried a yw'r orfodaeth yn gyfystyr ag amddiffyniad bod y plentyn wedi cyflawni'r trosedd o anfodd. Lle nad yw'n gyfystyr ag amddiffyniad a lle mae digon o dystiolaeth ar gyfer erlyniad, bydd amgylchiadau'r person ifanc yn un o'r ffactorau y dylai'r erlynydd eu hystyried wrth benderfynu a yw er lles y cyhoedd i erlyn y plentyn ai peidio.

CAFCASS CYMRU

Mae CAFCASS CYMRU yn gofalu am fuddiannau plant sy'n rhan o Achosion Llys Teuluol yng Nghymru ac ar adegau gellir galw arnynt i gyflawni'r rôl hon mewn achosion sy'n tarddu o Lysoedd yn Lloegr. Mae ymarferwyr CAFCASS CYMRU, y cyfeirir atynt gan ddefnyddio'r teitl generig Cynghorwyr Llys Teulu, yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, ac yna'n cynghori'r Llys ynghylch y dull gweithredu a fyddai orau er lles y plant yn eu tyb hwy. Mae CAFCASS CYMRU yn cyfrannu at sicrhau deilliannau sydd o ansawdd uchel ac yn ddiogel ar gyfer pob plentyn unigol.

Gall fod yn ofynnol ar adegau i Gynghorwyr Llys Teulu weithredu mewn achosion lle mae gwrthrych yr achos llys yn blentyn sydd wedi byw'n flaenorol mewn gwlad heblaw'r Deyrnas Unedig a lle mae'r Ymgeisydd y mae'r plentyn wedi'i leoli gydag ef neu gyda hi'n cael eu disgrifio fel "Perthynas" neu "Aelod o'r Teulu Estynedig". Byddai enghreifftiau o'r Achos Llys cysylltiedig yn cynnwys sefyllfa lle mae Cais wedi cael ei wneud i'r Llys am Orchymyn Preswylio, Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu Orchymyn Mabwysiadu. Dylai Cynghorwyr Llys Teulu fod yn arbennig o wyliadwrus mewn achosion o'r fath, yn enwedig wrth asesu cefndir, dymuniadau a theimladau'r plentyn dan sylw a statws y rheiny sy'n gwneud y cais. Yn yr un modd, dylai'r Cynghorydd Llys Teulu fod yn ymwybodol nad yw'r fasnach mewn plant wedi'i chyfyngu i blant sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig o wlad arall yn unig.

Mae Cafcass (Lloegr) wedi bod yn cydweithio gyda chydweithwyr yn yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i gynhyrchu:- "Guidance for the BIA and Cafcass in Cases before the Family Courts – November 2007". Mae CAFCASS CYMRU wedi dilyn y fenter honno ac mae wrthi ar hyn o bryd yn llunio'i ganllawiau ei hun gyda'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo.

Asiantaeth Ffiniau’r DU (UKBA)

Mae Asiantaeth Ffiniau’r DU yn un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref, sydd wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am reolaeth fewnfudo yn y DU. Mae penderfyniadau ynghylch derbyniadwyedd teithwyr sy’n cyrraedd yn cael eu gwneud gan staff mewn meysydd awyr a phorthladdoedd yn unol â Deddf Mewnfudo 1971 (fel y’i diwygiwyd). Mae’n bosib mai Asiantaeth Ffiniau’r DU fydd yr asiantaeth swyddogol gyntaf y bydd dioddefwyr y fasnach mewn plant yn dod ar ei thraws mewn pyrth mynediad ac unedau sgrinio ceiswyr lloches. Gallant adnabod a chynorthwyo’r plant hyn a phobl eraill ac arnynt angen cael eu hamddiffyn. Gall eu hymyriadau gael eu hysgogi gan amgylchiadau arbennig yr achos neu gan gudd-wybodaeth ryngwladol am fasnachu plant.

Mae Canolfan Sgrinio Ceiswyr Lloches gan Asiantaeth Ffiniau’r DU yng Nghaerdydd, lle gall Plant Sy’n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain wneud cais am loches. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd staff hyfforddedig a chyfieithwyr i gynnal y cyfweliadau. Gall gymryd hyd at bythefnos i sicrhau’r cyfieithydd cywir a dylai asiantaethau fod yn ymwybodol o’r oedi yma.

Mae’n bwysig bod yr holl asiantaethau sy’n ymwneud ag amddiffyn plant a fasnachwyd yn datblygu trefniadau gweithio da gydag Asiantaeth Ffiniau’r DU. Dylai Asiantaeth Ffiniau’r DU weithio hefyd gyda Byrddau Lleol Diogelu Plant lle mae ganddi bresenoldeb lleol.

Pan fo unrhyw geisiwr lloches ifanc yn cael cyfweliad – ar hyn o bryd mae plant yn cael eu cyfweld gan weithwyr achos Asiantaeth Ffiniau’r DU fel rhan o’u hawliad am loches yn unig – mae’n rhaid bod oedolyn cyfrifol (gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth neu wirfoddolwr hyfforddedig) yn bresennol. Dylid ystyried cymorth oedolyn cyfrifol hefyd yn unrhyw gyfweliad dilynol gyda phlentyn a gynhelir i ffwrdd oddi wrth ei noddw(y)r.

Dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, swyddog sydd wedi cael hyfforddiant arbennig ac sydd â gwybodaeth am faterion amddiffyn plant fydd yn cynnal y cyfweliad

Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC)

Ym mis Hydref 2006, yn dilyn cynnig gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu (ACPO), fe sefydlwyd Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU. Mae Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU yn darparu ymateb amlasiantaeth i fasnachu pobl i mewn i’r DU ac o fewn y

DU. Mae'r Ganolfan yn amcanu at fynd i'r afael â masnachu mewn pobl o safbwynt sy'n gwneud y dioddefwr yn ganolog ac sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol.

I ategu'r dull hwn mae'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) yn bwriadu sefydlu Desg Masnachu Plant i gydweithio'n agos gyda Chanolfan Masnachu mewn Pobl y DU a rhanddeiliaid perthnasol i gwblhau asesiad blynyddol o natur a maint problem masnachu plant er mwyn goleuo'r broses o ddatblygu polisïau, arferion gorau a gofynion hyfforddi yn yr heddlu. Mae adroddiad cwmpasu CEOP ar natur a maint problem masnachu plant i mewn i'r DU ac o fewn y DU (a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007, yn amlygu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth o fasnachu plant, gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwell trefniadau gweithio rhyngasiantaethol ar gyfer diogelu plant a fasnachwyd. Bydd cynnwys aelod o Asiantaeth Ffiniau'r DU sydd wedi'i secondio i CEOP yn sicrhau y bydd yr asiantaeth yn ymateb yn briodol i faterion mewnfudo sy'n ymwneud â dioddefwyr a fasnachwyd.

Y Sector Gwirfoddol

Mae'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru'n darparu ystod sylweddol, amrywiol a helaeth o wasanaethau ar gyfer y grwpiau cymdeithasol sydd fwyaf agored i niwed. Bydd rhai gwasanaethau yn y sector hwn yn cael eu targedu'n benodol at boblogaeth y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid ac yn cael eu cyflenwi'n bennaf trwy Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Yn anffodus, ychydig iawn o wasanaethau wedi'u targedu sydd, ac mae diffyg sylweddol ym meysydd gwasanaethau therapiwtig, cymorth i deuluoedd, gwasanaethau cyfreithiol a mentrau rhianta. O ganlyniad gall y fintai hon geisio mynediad at wasanaethau arbenigol, neu fwy generig, eraill a ddarperir ar draws y sector gwirfoddol.

Mae cyflogeion yn y sector gwirfoddol mewn sefyllfa arbennig o dda i ganfod materion sy'n ymwneud â masnachu plant. Mae hyn yn deillio'n rhannol o rychwant eang eu gwasanaethau a'r ffaith eu bod yn cyrraedd cymunedau agored i niwed, ond hefyd am fod gwasanaethau gwirfoddol yn fwy tebygol o gyflenwi ymarfer cyfranogol sy'n creu gwasanaeth mwy hygyrch, sydd mewn gwell sefyllfa i gwrdd ag anghenion defnyddwyr.
Mae rhai mudiadau yn y sector gwirfoddol wedi cychwyn ar y dasg o godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant ar gyfer staff mewn masnachu plant ar draws eu gweithlu yn unol ag arfer da ym maes diogelu plant. Yng Nghymru mae angen i ni sicrhau bod gan yr holl staff yn y sector gwirfoddol, yn yr elusennau mwy a'r rhai llai, fynediad at gyfleoedd codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sydd o ansawdd da ac yn fforddiadwy.

Mae grwpiau ymgyrchu penodol megis y rheiny a grybwyllir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon gan gynnwys ECPAT, CROP a'r mudiadau gwirfoddol mwy, yn gweithio ym meysydd ymchwil a datblygu a pholisi a materion cyhoeddus. Mae eu gwaith ymchwil ac ymgyrchu yn y maes hwn wedi bod yn gwneud cyfraniad arbennig o gryf o ran cydosod cudd-wybodaeth a gwthio'r agenda masnachu pobl yn ei blaen.

Y Gymuned Ffydd

Mae'r gymuned ffydd, sy'n rhan o'r sector gwirfoddol ac sydd ag ymrwymiad hanesyddol i gyfiawnder cymdeithasol, yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Er bod ymateb y gymuned ffydd i faterion masnachu mewn pobl wedi bod yn araf ac yn anwastad weithiau, mae'n dal i dyfu. Ar ben hynny, mae nifer o unigolion yn cael eu hysgogi gan eu ffydd i weithio gyda'r llu o elusennau prif-ffrwd, nad ydynt yn ymwneud â chrefydd, sy'n brwydro yn erbyn masnachu pobl, rhywbeth sy'n golygu bod cyfraniad cymunedau ffydd ar y cyfan weithiau'n guddiedig.

Mae'r rhwydweithiau byd-eang o gymunedau ffydd hefyd yn golygu bod ganddynt fynediad at wybodaeth fanwl gywir am faterion masnachu pobl ar lawr gwlad mewn gwledydd o amgylch y byd. O fewn y cymunedau ffydd yng Nghymru, mae hyn yn aml yn arwain at ffocysau ar ymgyrchu, lobïo a chodi arian.

Mae gan lawer o ddioddefwyr y fasnach mewn pobl, gan gynnwys plant, ffydd gref ac, o ganlyniad, fe all cymunedau ffydd, gan weithio mewn partneriaeth gydag eraill, gynnig cymorth gwerthfawr yn y broses adfer. Gall arferion sy'n gysylltiedig â ffydd ac arferion diwylliannol cysylltiedig gael eu defnyddio gan fasnachwyr weithiau i reoli dioddefwyr ac, yn yr un modd, yn yr achosion hyn gall cymunedau ffydd chwarae rhan allweddol wrth sicrhau lles ysbrydol dioddefwyr fel rhan o'u hadferiad.

Sefydliadau yng Nghymru a’r DU a fyddai o bosib yn gallu helpu

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

Rhan o rôl Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) yw cysylltu â, a goleuo strategaethau a mentrau rhanbarthol/cenedlaethol sy’n gysylltiedig â cheiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr, gan gynnwys plant. Mae WSMP hefyd yn hwyluso trafodaethau amlasiantaeth ar ymfudo ar lefelau gweithredol a strategol ledled Cymru. Oherwydd y gweithdrefnau newydd ar y fasnach mewn pobl a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2009 wedi i’r Llywodraeth weithredu Confensiwn Cyngor Ewrop ar y Fasnach mewn Pobl, a’r dystiolaeth gynyddol o fasnachu pobl yng Nghymru a amlygwyd gan adroddiadau uchel eu proffil a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae WSMP yn gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o fudiadau a sefydliadau ar y mater hwn i godi ymwybyddiaeth, gwella’r trefniadau cydgysylltu a hwyluso’r broses o rannu gwybodaeth mewn perthynas â masnachu pobl. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ariannu swydd Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy’n Ffoaduriaid, yn WSMP. Pwrpas y swydd yw darparu adnodd ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru, sy’n rhoi cyngor a gwybodaeth am faterion polisi ac arfer mewn perthynas â rhoi cymorth i Blant sy’n Ffoaduriaid, Plant sy’n Ceisio Lloches a Phlant a Fasnachwyd.

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru ugain mlynedd o brofiad o weithio gyda ffoaduriaid, ceiswyr lloches a cheiswyr lloches a wrthodwyd. Mae’n darparu gwasanaethau cynghori cyfrinachol ac annibynnol ar hyd a lled Cymru, yn dadlau dros hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn rhoi cymorth i feithrin galluoedd mewn mudiadau cymunedol sy’n cynrychioli ffoaduriaid, ac yn hybu cysylltiadau cymunedol da. Ei weledigaeth yw sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ddiogel, a’u bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru.

Mae gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, a rhan ganolog o’i waith yw adnabod a rhoi cymorth i’r bobl fwyaf agored i niwed; gan gynnwys plant sy’n ceisio lloches ac sy’n ffoaduriaid, a phlant sydd dan amheuaeth o fod wedi cael eu masnachu, i sicrhau eu bod yn derbyn yr un gofal a mesurau i’w hamddiffyn ag unrhyw blentyn arall sy’n byw yng Nghymru. Mae’r Uned Plant yng Nghyngor Ffoaduriaid Cymru wedi cael ei sefydlu i ddarparu ystod o wasanaethau a gwella bywydau plant sy’n ceisio lloches a phlant sy’n ffoaduriaid ledled Cymru.

Mae profiad Cyngor Ffoaduriaid Cymru'n dangos bod Plant sy'n Ffoaduriaid a Phlant sy'n Ceisio Lloches ymhlith y plant mwyaf agored i niwed sy'n byw yng Nghymru; a'u bod yn aml yn wynebu anawsterau lluosog gan gynnwys trawma, masnachu, tlodi, esgeuluso, dadleoli, arwahanrwydd, hiliaeth ac anghrediniaeth.

Rydym yn darparu dull plentyn-ganolog magwrol a sensitif mewn perthynas ag eiriolaeth a chwarae; mae hynny'n bwydo i mewn i'n gwaith polisi myfyriol, ymgyrchu a datblygu i wella bywydau plant ledled Cymru a'r DU.

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru'n cynnig y gwasanaethau canlynol:

- Sesiynau Chwarae Arbenigol,
- Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain
- Prosiectau, hyfforddiant a gwaith ymgynghorol Datblygiadol
- Cyngor ac arweiniad ynghylch polisïau

Yr Uned Plant

Caiff yr Uned Plant ei staffio gan dîm o ymarferwyr plentyn-ganolog pwrpasol sy'n amcanu at wella bywydau plant a grymuso plant i fwynhau, chwarae a dod yn gyfranogwyr gweithgar mewn bywyd.

Mae'n cyflogi Uwch Swyddog Polisi Plant, Eiriolwr Plant a Gweithiwr Chwarae Datblygiadol. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Ffoaduriaid Cymru http://www.welshrefugeecouncil.org

Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP)

Ym mis Ebrill 2006, fe sefydlodd y Llywodraeth y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) i amddiffyn plant rhag camfanteisio sy'n deillio o'r Rhyngrwyd. Mae CEOP hefyd yn cynorthwyo heddluoedd i fonitro troseddwyr rhyw yn y DU. Yn ogystal â hynny mae gan CEOP y cylch gorchwyl strategol cenedlaethol ar gyfer masnachu plant. Maent yn mabwysiadu dull plentyn-ganolog ym mhob agwedd ar eu busnes ac yn cydweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA), ACPO, UKHTC a'r rhanddeiliaid statudol ac anstatudol perthnasol ar bob mater sy'n ymwneud â masnachu plant.

Ym mis Mehefin 2007, fe gyhoeddodd CEOP adroddiad cwmpasu ar fasnachu plant yn y DU. Wedyn fe gyhoeddwyd y ddogfen *Strategic Threat Assessment* ar fasnachu plant yn y DU ym mis Ebrill 2009. Comisiynwyd y dogfennau hyn gan y Swyddfa Gartref. Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth o fasnachu plant, gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwell trefniadau gweithio rhyngasiantaethol ar gyfer diogelu plant a fasnachwyd. Gellir lawrlwytho'r adroddiad o wefan CEOP yn www.ceop.gov.uk.

Bydd CEOP yn parhau i gynhyrchu asesiad bygythiad blynyddol o faint a natur problem masnachu plant yn y DU. Yn ogystal â hynny byddant yn parhau i gynhyrchu a chyhoeddi nifer o asesiadau o broblem masnachu plant sy'n rhoi sylw i themâu penodol. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad o fasnachu a hwyluso taith plant o Afghanistan i'r DU, masnachu plant at ddibenion twyll budd-daliadau ac asesiad o blant cudd.

Llinell Cyngor a Gwybodaeth Ynghylch Masnachu Plant yr NSPCC (CTAIL)

Fe lansiodd y Swyddfa Gartref Linell Cyngor a Gwybodaeth Ynghylch Masnachu Plant yr NSPCC ym mis Hydref 2007. Mae'r gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu masnachu i mewn i'r Deyrnas Unedig o wledydd eraill, ac mae'n rhoi cyngor ynghylch diogelu ac arfer gorau gyda'r grŵp yma o ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gweithwyr yn cynnig cyngor a gwybodaeth dros y ffôn ond maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd perthnasol gan gynnwys cyfarfodydd ar strategaethau amddiffyn plant lle maent yn cynnig cymorth ymgynghorol mewn perthynas ag achosion. Cynigir hyn hefyd i weithwyr unigol, gan gynnwys gofalwyr maeth neu i grwpiau o weithwyr mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig ag achosion unigol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth asiantaeth-benodol mewn perthynas â materion masnachu plant i amrywiaeth o asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr Asiantaeth Ffiniau, Timau Troseddau Ieuenctid, yr Heddlu, y sector gwirfoddol a Gwasanaethau Plant. Maent hefyd yn dylanwadu ar bolisi ac yn gwneud gwaith ymchwil sy'n berthnasol i fasnachu plant. Ffôn: **0800 107 7057** Llun - Gwener 9.30am tan 4.30pm neu e-bost: **ctail@nspcc.org.uk**.

Adran Tri

Adnabod ac asesu gwybodaeth

Ni ddylid ystyried bod unrhyw ddangosyddion a geir isod, boed yn unigol neu gyda'i gilydd, yn brawf terfynol o fasnachu plant, ond gallai unrhyw un ohonynt awgrymu'r posibilrwydd.

Gallai rhai dangosyddion sy'n awgrymu bod plentyn wedi'i fasnachu gynnwys sefyllfaoedd:

- Lle mae'r plentyn wedi dod i mewn i'r wlad yn anghyfreithlon.
- Lle mae'r plentyn heb basbort na dull arall o brofi pwy ydyw.
- Lle mae gan y plentyn ddogfennaeth ffug.
- Lle mae'r plentyn yn methu â chadarnhau enw a chyfeiriad y person sy'n cwrdd ag ef/â hi wedi iddo/iddi gyrraedd.
- Lle nad yw'n ymddangos bod gan y plentyn arian ond bod gan y plentyn ffôn symudol.
- Lle mae'r plentyn yn meddu ar arian a nwyddau na roddwyd cyfrif amdanynt.
- Lle mae'r plentyn yn derbyn galwadau ffôn diesboniad/anhysbys tra'i fod mewn lleoliad/llety dros dro.
- Lle mae'r plentyn yn cael ei hebrwng mewn car gan ddyn neu 'gariad' hŷn.
- Lle mae'r plentyn yn dawedog ac yn gwrthod siarad.
- Lle mae'r plentyn yn dangos arwyddion o ymddygiad rhywiol neu iaith rywiol.
- Lle mae'r plentyn yn dangos arwyddion o gam-drin corfforol neu rywiol, ac/neu wedi dal clefyd a drosglwyddir yn rhywiol.
- Lle mae gan y plentyn hanes sy'n cynnwys dolenni coll a symudiadau diesboniad.
- Lle mae'r plentyn wedi mynd ar goll o ofal awdurdod lleol.
- Lle mae'n ofynnol i'r plentyn ennill lleiafswm o arian bob dydd.
- Lle mae'r plentyn yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol.
- Lle mae gan y plentyn ryddid cyfyngedig i symud.
- Lle mae'r plentyn i'w weld fel pe bai ar goll am gyfnodau.
- Lle gwyddys fod y plentyn yn cardota i gael arian.
- Lle mae'r plentyn yn derbyn gofal gan oedolyn/oedolion nad yw/ydynt yn rhiant/rhieni i'r plentyn. Lle nad yw ansawdd y berthynas rhwng y plentyn a'r oedolion sy'n gofalu am y plentyn yn dda.

- Lle nad yw'r plentyn wedi cael ei gofrestru gyda phractis meddyg teulu nac wedi mynychu practis meddyg teulu.
- Lle nad yw'r plentyn wedi cael ei gofrestru mewn ysgol.
- Lle mae'n rhaid i'r plentyn ad-dalu dyled afresymol, e.e. am gostau teithio, cyn cael rheolaeth ar ei enillion ei hun.
- Lle mae'r plentyn yn cael ei amddifadu'n barhaol o ran fawr o'i enillion gan berson arall.
- Lle mae ar y plentyn ofn gormodol y bydd yn cael ei alltudio.
- Lle mae taith neu deitheb y plentyn wedi cael ei threfnu gan rywun heblaw'r plentyn ei hun neu deulu'r plentyn.
- Neu lle mae'r person sy'n rheoli'r plentyn wedi gwneud sawl cais am deitheb yn flaenorol ar gyfer plant eraill ac/neu wedi gweithredu fel gwarantwr ar geisiadau gan blant eraill am deitheb.
- Neu lle gwyddys fod y person wedi gweithredu fel gwarantwr ar geisiadau am deithebau ar gyfer ymwelwyr eraill nad ydynt wedi dychwelyd i'w mamwlad wedi i'r teithebau hynny ddod i ben.

Mae ffactorau eraill y dylid cadw golwg amdanynt yn cynnwys:

- A oes unrhyw arwyddion bod y plentyn wedi cael ei esgeuluso?
- Chwiliwch am arwyddion amlwg o "gyfoeth" – ffonau symudol, dillad dylunwyr, arian.
- A yw'r plentyn yn chwarae triwant o'r ysgol?
- A oes arwyddion o gam-drin corfforol?

Bydd pob plentyn y camfanteisiwyd arno/arni'n dioddef rhyw fath o niwed corfforol neu emosiynol. Fel arfer, po hwyaf y bydd y camfanteisio'n para, po fwyaf o broblemau iechyd y bydd y plentyn yn eu profi.



Ffigur 1 *Dylech ystyried bod y plentyn o bosib wedi cael ei fasnachu wrth ddod wyneb yn wyneb ag unrhyw un o'r senarios hyn*

Atgyfeirio ac Ymarfer Cychwynnol i Gasglu Gwybodaeth

Ymchwilio i achosion o fasnachu plant

Lle mae pryder bod plentyn wedi cael ei fasnachu gall y plentyn fod mewn perygl o ddioddef niwed ar unwaith ac mae amser yn hanfodol. Mae'n rhaid gwneud atgyfeiriad yn y lle cyntaf at Swyddog Dyletswydd y Gwasanaethau Plant (atgyfeiriad ar lafar, gydag atgyfeiriad ysgrifenedig wedyn o fewn 48 awr) yn unol â *Diogelu Plant* a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Bydd y Gwasanaethau Plant yn hysbysu'r heddlu ar frys i sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen.

Os caiff y pryder ei adnabod gan staff mewnfudo yna mae'n rhaid i'r achos gael ei atgyfeirio at Swyddog Amddiffyn Plant yr Heddlu a gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol yn unol â chanllawiau diogelu plant lleol, oherwydd y cydnabyddir fod plant sy'n mynd ar goll yn fuan ar ôl cael eu sgrinio mewn Uned Sgrinio Ceiswyr Lloches (ASU) yn rhai a allai fod wedi cael eu masnachu.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n derbyn yr atgyfeiriad gael cymaint o wybodaeth â phosib gan yr atgyfeirydd. Dylai hyn gynnwys enw, dyddiad geni a chyfeiriad y plentyn, enw'r gofalwr/gwarcheidwad a'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant, cyfeiriad y person hwnnw os yw'n wahanol, rhif ffôn, manylion y famwlad, iaith gyntaf a pha un a yw'n siarad Saesneg, enwau unrhyw siblingiaid neu blant eraill gan gynnwys nodi a all fod risg parhaus o niwed dan ddwylo'r masnachwr. Os felly, mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda'r heddlu.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol wirio'r holl ddogfennaeth a ddelir gan yr atgyfeirydd ac asiantaethau perthnasol eraill. Dylai'r ddogfennaeth gynnwys (os ydynt ar gael) pasbort, papurau'r Swyddfa Gartref, tystysgrif geni a phrawf o warcheidiaeth. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a dylid mynd i lawr pob llwybr. Mae'n rhaid cynnwys ffotograff diweddar o'r plentyn yn y ffeil, ynghyd â chopïau o'r holl ddogfennaeth adnabod berthnasol.

Wrth asesu dogfennaeth dylid rhoi sylw i'r manylion. Os yw pasbort yn cael ei wirio dylai'r swyddog wneud y canlynol:

- Gwirio'r dyddiad dyroddi.
- Gwirio hyd y deitheb.
- Gwirio a yw'r llun yn debyg i'r plentyn.
- Gwirio a yw'r enw yn y pasbort yr un fath â'r fam/tad honedig ac os nad ydyw, pam.
- Wrth asesu dogfennaeth dylai'r swyddog wirio a yw'n ymddangos yn gopi gwreiddiol. Os ydyw, dylai'r swyddog wneud copïau i sicrhau y gellir gwneud gwiriadau pellach.

Unwaith y bydd yr holl bapurau wedi cael eu gwirio, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ofyn i'r atgyfeirydd egluro beth oedd ei bryderon. Mae angen i'r gweithiwr cymdeithasol ganfod pam y gwnaeth yr atgyfeiriad, beth arweiniodd yr atgyfeirydd i gredu y gallai'r plentyn fod wedi cael ei fasnachu neu y gallai fod yma'n anghyfreithlon; ac mae'n rhaid iddynt ofyn i'r atgyfeirydd egluro'i bryderon yn ysgrifenedig i sicrhau bod trywydd archwilio cywir ac eglur yn cael ei gadw.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol wirio, cyn gynted â phosib, bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad. Dylai hefyd wirio a yw'r gofalwr, y gwarcheidwad neu aelodau eraill o'r aelwyd, a'r cyfeiriad preswyl, yn hysbys i'r heddlu neu i wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol.

Yn achos atgyfeiriad gan ysgol neu sefydliad addysgol arall dylid cael y ddogfennaeth a ddarparwyd pan gafodd y plentyn ei dderbyn i'r ysgol hefyd.

Dylid cwblhau gwiriad Asiantaeth Ffiniau'r DU i daflu goleuni ar statws y plentyn/plant a'r oedolyn/oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae'n arfer mwyfwy cyffredin i Asiantaeth Ffiniau'r DU fod â ffotograff digidol o'r plentyn ar ei chronfa ddata a gallai hwn fod o gymorth i adnabod y plentyn.

Gan ei bod yn bosib na fydd gan y plentyn unrhyw fanylion adnabod wedi'u dogfennu, neu y bydd eu dogfennau'n rhai ffug, mae'n hanfodol bod ffotograff o'r plentyn yn cael ei dynnu a'i atodi wrth eu ffeil. Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n ffonio gwasanaethau cymdeithasol plant mewn awdurdod lleol i fynegi pryder eu bod yn amau, neu'n gwybod, bod plentyn wedi cael ei fasnachu gadarnhau atgyfeiriadau'n ysgrifenedig o fewn 48 awr. Ar ddiwedd unrhyw drafodaeth neu ddialog am blentyn, dylai'r atgyfeirydd (boed yn weithiwr proffesiynol, yn aelod o'r cyhoedd, neu'n aelod o'r teulu) a gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol fod yn glir ynghylch unrhyw gamau gweithredu arfaethedig, graddfeydd amser a phwy fydd yn cymryd y camau gweithredu, neu fod yn glir na fydd unrhyw gamau gweithredu pellach yn cael eu cymryd. Dylai'r penderfyniad gael ei gofnodi gan wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a chan yr atgyfeirydd, os mai gweithiwr proffesiynol mewn gwasanaeth arall ydyw. Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol gydnabod atgyfeiriad ysgrifenedig o fewn un diwrnod gwaith i'w dderbyn. Os nad yw'r atgyfeirydd wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn tri niwrnod gwaith, dylai gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol eto.

Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol benderfynu ar, a chofnodi'r camau gweithredu nesaf o fewn un diwrnod gwaith. Dylai'r wybodaeth hon fod yn gyson â'r wybodaeth a nodwyd yn y Cofnod Atgyfeirio a Gwybodaeth (Yr Adran Iechyd, 2002). Fel arfer dylai'r penderfyniad hwn ddilyn trafodaeth gydag unrhyw weithiwr proffesiynol/gwasanaeth sy'n atgyfeirio ac ystyriaeth i wybodaeth a ddelir yn unrhyw gofnodion presennol. Dylai hefyd gynnwys trafodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill fel y bo'n angenrheidiol (gan gynnwys yr heddlu, lle gall fod tramgwydd troseddol wedi cael ei gyflawni yn

erbyn plentyn). Dylai'r ystyriaeth gychwynnol hon i'r achos ofyn, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a oes pryderon ynghylch iechyd a datblygiad y plentyn neu niwed gwirioneddol ac/neu bosib sy'n cyfiawnhau Asesiad Cychwynnol i ganfod a yw'r plentyn hwn o bosib yn blentyn mewn angen neu'n blentyn y mae angen ei amddiffyn. Gallai camau gweithredu pellach hefyd gynnwys atgyfeirio at asiantaethau eraill neu ddarparu cyngor neu wybodaeth.

Os oes achos rhesymol i gredu bod y plentyn yn dioddef, yn debygol o ddioddef niwed sylweddol, neu mewn perygl sydd ar fin digwydd dan ddwylo'r masnachwr neu unrhyw berson arall, yna gellir ceisio Gorchymyn Amddiffyn Brys. Dylid ystyried Pwerau Amddiffyn yr Heddlu mewn argyfwng.

Os nad oes perygl sydd ar fin digwydd i'r plentyn sy'n gwarantu mesurau amddiffyn brys ond bod pryderon difrifol ynghylch lles y plentyn yna dylid cychwyn ymholiadau adran 47 dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 (paragraff 36).

Os nad oes perygl sydd ar fin digwydd ac os nad oes angen amddiffyn y plentyn rhag unrhyw barti arall yna dylid cychwyn asesiad plentyn mewn angen dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

Hyd yn oed os nad oes unrhyw bryderon dylai asiantaethau barhau i fonitro'r sefyllfa nes bod plentyn wedi ymgartrefu'n briodol. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol hysbysu'r atgyfeirydd ynghylch y penderfyniad o ran pa gynllun fydd yn cael ei roi ar waith. Yn achos yr holl blant â materion mewnfudo dylid hysbysu Asiantaeth Ffiniau'r DU er mwyn i'r prosesau mewnfudo allu cael eu cydgysylltu â'r cynllun amddiffyn argymelledig.

Dylai'r drafodaeth rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'i weithiwr goruchwyliol, ar ôl cwblhau'r broses gychwynnol o gasglu gwybodaeth, gael ei chofnodi; a dylai tasgau gael eu hamlinellu a'u cymeradwyo gan y rheolwr.

Os oes angen camau pellach (sydd heb fod yn rhai brys), dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth addysg, y gwasanaeth iechyd, yr asiantaeth a atgyfeiriodd yr achos a chyrff perthnasol eraill e.e. tai, yr asiantaeth budd-daliadau a'r gwasanaeth mewnfudo. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith unrhyw gamau gweithredu ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad. Gallai defnyddio cudd-wybodaeth o'r porth mynediad helpu gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol wrth ganlyn arni ag ymholiadau pellach ynghylch y plentyn.

Wrth gynnal unrhyw asesiad ac wrth wneud unrhyw waith dilynol gyda'r plentyn, mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol sicrhau ei fod yn defnyddio cyfieithydd cymeradwy addas i gyfieithu ar y pryd. Ni ddylai'r swyddogaeth hon gael ei chyflawni gan y noddwr nac unrhyw oedolyn arall sy'n honni bod yn rhiant, gwarcheidwad neu berthynas dan unrhyw amgylchiadau. Dylai pob plentyn gael digon o gyfle i ddatgelu unrhyw bryderon allan o ŵydd y noddwr.

Ar ôl atgyfeirio'r achos, a chan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad cychwynnol, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol gynnull cyfarfod strategaeth lle maent yn amau bod plentyn yn cael ei fasnachu.

Os bydd angen i blentyn/person ifanc ddod yn rhywun sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, mae angen ystyried yn ofalus ble y bydd yn cael ei leoli gan fod y masnachwr yn debygol o ymdrechu'n galed i adfer y plentyn, y bydd yn ei ystyried yn nwydd gwerthfawr. Gweler Atodiad 4 am fwy o wybodaeth am arfer da yn y maes yma.

Trafodaeth/cyfarfod strategaeth amlasiantaeth

Mae'n rhaid i hwn gael ei gynnal pryd bynnag y ceir atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant lle ceir tystiolaeth neu amheuaeth bod plentyn/plant yn dioddef camfanteisio trwy fasnachu plant. Oherwydd yr angen i weithredu'n brydlon, mae'n rhaid cynnal y drafodaeth/y cyfarfod **o fewn 48 awr** i dderbyn yr atgyfeiriad. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth gael ei rhannu rhwng yr asiantaethau allweddol lle bynnag y bo'n bosib **o fewn 24 awr**.

Pan fo'r Rheolwr ar Ddyletswydd yn y gwasanaethau plant yn derbyn atgyfeiriad gyda phryderon ynghylch plentyn a allai fod wedi cael ei fasnachu, bydd y camau gweithredu canlynol yn cael eu cymryd:

- Bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r atgyfeirydd i gasglu cymaint o wybodaeth â phosib.
- Bydd gwiriadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio System Cofnodion Cleientiaid Electronig y Gwasanaethau Plant i wirio unrhyw hanes.
- Trafodaeth gyda'r Uned Amddiffyn Plant leol, a honno'n cynnwys:
- Pa un a ddylai gofalw(y)r y plentyn gael eu hysbysu bod atgyfeiriad wedi dod i law ai peidio.
- Pa un a ddylid cael caniatâd gan y gofalw(y)r i wneud ymholiadau gydag asiantaethau eraill.

- Yn y ddau achos, mae'n bwysig canfod a fydd unrhyw un o'r camau gweithredu uchod yn rhoi'r plentyn mewn perygl pellach o niwed sylweddol ac/neu a fydd rhannu'r wybodaeth hon yn effeithio ar unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu.
- Bydd penderfyniad yn cael ei wneud **o fewn 24 awr** ynghylch y dull gweithredu a fydd yn cael ei ddefnyddio, h.y. a17 ynteu a47 o Ddeddf Plant 1989, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.
- Gall yr ymholiadau/y drafodaeth ddangos bod plentyn "mewn angen" (a17 o Ddeddf Plant 1989) heb unrhyw bryderon bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed difrifol. (Gall fod angen Asesiad Craidd.)
- Bydd ymchwiliad Adran 47 yn cael ei gynnal os yw'r plentyn mewn perygl o ddioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.
- Bydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal i gynllunio'r dull gweithredu gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008".

Dylai'r cyfarfod hwn geisio gweithio ar sail consensws. Dylid nodi unrhyw anghytundebau ac os na ellir eu datrys, dylent gael eu codi o fewn y strwythurau rheoli perthnasol. Dylid dosbarthu cofnod o'r cyfarfod i bawb sy'n bresennol, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel o fewn eu hasiantaeth.

Bydd Rheolwr â chymwysterau addas yn cadeirio'r cyfarfodydd. Dylai'r Cadeirydd wastad hysbysu'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Masnachu Plant yn y Gwasanaethau Plant ynghylch cyfarfod sy'n cael ei gynnal, hyd yn oed os nad yw'n gallu bod yn bresennol. Bydd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: -

- Yr atgyfeirydd os yw'n weithiwr proffesiynol.
- Y Swyddog Arweiniol ar gyfer Tîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.
- Y Swyddog Arweiniol ar gyfer Ysgolion a Dysgu Gydol Oes.
- Y Swyddog Arweiniol ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd.
- Y Swyddog Arweiniol ar gyfer y Gwasanaeth Hamdden a Pharciau (os yn briodol).
- Y Swyddog Arweiniol ar gyfer Asiantaeth Ffiniau'r DU.
- Gweithiwr Cymdeithasol.
- Swyddog Arweiniol o'r Gwasanaethau Plant.
- Swyddog Arweiniol ar ran y Sector Gwirfoddol.
- Uwch Reolwr ar gyfer Diogelu Plant.

- Unrhyw berson perthnasol arall (e.e. Gofalwr Maeth, Rheolwr Preswyl a.y.b.).

Pwrpas y cyfarfod yw:

- Rhannu ac egluro gwybodaeth;
- Canfod union natur y pryderon; a hefyd
- Cytuno ar y camau gweithredu a gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon.

Mae'n rhaid i'r cynlluniau nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r tasgau oni bai y penderfynir na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd, neu y bydd gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu rhoi ar waith.

Penderfyniad i gyfweld

Unwaith y bydd yr holl wybodaeth bosib wedi cael ei chasglu, dylai'r gweithiwr cymdeithasol a'u rheolwr goruchwyliol, ynghyd â'r heddlu, benderfynu a ddylid cynnal cyfweliadau ar y cyd. Gallai'r rhain gynnwys yr Uned Ymchwilio i Gam-drin Plant (CAIU), Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Heddlu lleol. Gallai fod o gymorth cynnwys swyddogion mewnfudo mewn cyfarfod penderfynu o'r fath, gan y gallai fod angen datrys pryderon ynghylch mewnfudo.

Yn y tymor hirach gallai gwybodaeth a gasglwyd mewn cyfweliad helpu i ddatrys statws mewnfudo'r plentyn. Gallai gwybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliad atal eraill rhag cael eu masnachu o wledydd tramor hefyd.

Lle penderfynir y dylid ymweld â'r teulu a'u cyfweld dylid dilyn arfer safonol mewn gwaith cymdeithasol. Dylai'r plentyn gael ei weld ar ei ben ei hun, a gorau oll os bydd hynny mewn amgylchedd diogel. Dylid sicrhau nad yw'r gofalwyr gerllaw. Bydd plant fel arfer yn cadw at eu stori ac ni fyddant yn siarad nes eu bod yn teimlo'n gysurus.

Dylid defnyddio cyfieithwyr proffesiynol, sydd wedi cael eu cymeradwyo ac wedi cael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol, i gyfieithu ar y pryd. Nid yw'n dderbyniol defnyddio aelod o'r teulu na noddwr.

Dylai cwestiynau ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfansoddiad teuluol, brodyr, chwiorydd, oedrannau.
- Cyflogaeth rhieni.
- Tasgau y maent yn eu gwneud o amgylch y tŷ.
- Am faint o amser y maent wedi bod yn y wlad yma.
- Ble'r oeddent yn byw yn eu mamwlad.
- Ble'r aethant i'r ysgol yn eu mamwlad.
- Pwy oedd yn gofalu amdanynt yn eu mamwlad.

Dylid cyfweld â'r oedolion yn y teulu (ar wahân os yn bosib) ar yr un sail, gan ddefnyddio'r un cwestiynau. Wedyn gellir cymharu'r atebion i sicrhau eu bod yr un fath.

Dylai'r holl ddogfennaeth gael ei gweld a'i gwirio. Mae hyn yn cynnwys dogfennaeth y Swyddfa Gartref, pasbortau, teithebau, biliau cyfleustodau, cytundebau tenantiaeth a thystysgrifau geni. Dylid rhoi sylw arbennig i'r ddogfennaeth a gyflwynwyd i'r ysgol pan gafodd y plentyn ei dderbyn. Nid yw'n dderbyniol bod rhywun yn dweud *'mae'r pasbort ar goll'* neu *'Alla i ddim dod o hyd i'r gwaith papur ar hyn o bryd'*. Mae'n eithriadol o annhebygol nad yw rhywun yn gwybod ble mae eu gwaith papur/dogfennaeth swyddogol yn cael ei g/chadw.

Dylai'r cyfweliad gael ei gwblhau mor llawn a chyflawn â phosib i sicrhau cywirdeb ac osgoi ymwthio ar y teulu am gyfnod hwy nag sy'n hollol angenrheidiol.

Yn dilyn cwblhau'r asesiad dylid cynnal cyfarfod gyda'r gweithiwr cymdeithasol, ei reolwr goruchwyliol, yr asiantaeth a atgyfeiriodd yr achos fel y bo'n briodol, yr heddlu ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'r achos i benderfynu ar gamau gweithredu yn y dyfodol. Ni ddylid cymryd camau gweithredu pellach nes bod y cyfarfod yma wedi cael ei gynnal ag y ceir cytundeb amlasiantaeth. Lle ceir nad yw'r plentyn yn aelod o'r teulu ac nad yw'n perthyn i unrhyw berson arall yn y wlad yma, dylid ystyried a oes angen symud y plentyn oddi ar yr aelwyd ac/neu geisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais ar wahân am statws mewnfudo.

Cylch gorchwyl yr heddlu a'r Swyddfa Gartref yw unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â thwyll, masnachu pobl, dichell a mynediad anghyfreithlon i mewn i'r wlad yma. Dylai'r awdurdod lleol gynorthwyo sut bynnag y gall. Fodd bynnag, erys y cyfrifoldeb am gamau cyfreithiol gyda'r asiantaethau eraill fel arfer (mae'r eithriadau'n cynnwys twyll budd-daliadau, sy'n gyfrifoldeb i'r Adran Gwaith a Phensiynau, a throseddau sy'n ymwneud ag addysg, y gweithredir arnynt gan yr awdurdod lleol).

Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol – Trefniadau Cenedlaethol ar gyfer Achosion Tybiedig o Fasnachu Pobl

Ar 17 Rhagfyr 2008, fe gadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn Erbyn y Fasnach mewn Pobl, ac fe roddodd Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) ar gyfer masnachu mewn pobl ar waith (i gyflawni'i dyletswyddau i amddiffyn dioddefwyr ac erlyn y rheiny sy'n gyfrifol am fasnachu pobl). Daeth y Confensiwn i rym ar 1 Ebrill 2009.

Er bod cadarnhau'r Confensiwn wedi golygu bod rhai newidiadau deddfwriaethol yn ofynnol, mae fframweithiau cyfredol ar gyfer gofal plant ac amddiffyn plant yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn. Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn rhedeg ochr yn ochr â'r prosesau i'w dilyn yn y cyfarwyddyd hwn a'r cysyniadau allweddol sy'n sail iddo yw proses benderfynu wedi'i chanoli trwy:

- Swyddog Arweiniol Masnachu Pobl
- Awdurdod Cymwys
- Matrics Risgiau
- Adroddiad Asesu a Ffurflen Atgyfeirio Masnachu mewn Pobl

.
O'r 1af o Ebrill 2009, dylai asiantaethau rheng-flaen atgyfeirio pob achos tybiedig o fasnachu mewn plant i gael eu hasesu gan Awdurdodau Cymwys (AC) dynodedig. Yr Awdurdodau Cymwys yn y Deyrnas Unedig yw:

- Awdurdod Cymwys amlasiantaeth canolog wedi'i leoli yng Nghanolfan Masnachu mewn Pobl y DU; ac
- Awdurdod Cymwys sy'n gysylltiedig ond ar wahân yn Asiantaeth Ffiniau'r DU, a fydd yn asesu achosion lle mae masnachu mewn pobl yn cael ei godi fel rhan o hawliad am loches neu yng nghyd-destun proses fewnfudo arall.

Rôl yr Awdurdodau Cymwys fydd penderfynu a oes sail resymol ac/neu derfynol i berson a atgyfeiriwyd gael ei ystyried a'i gofnodi fel dioddefwr y fasnach mewn pobl. Mae'n rhaid i unrhyw achos gael ei atgyfeirio at yr Awdurdod Cymwys trwy broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gan ddefnyddio'r ffurflen a chanllawiau asesu risgiau sydd hefyd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref yn:

www.crimereduction.homeoffice.gov.uk/humantrafficking005.htm.

Gall unrhyw weithiwr proffesiynol ac arno/arni angen cymorth mewn perthynas ag atgyfeirio gan ddefnyddio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gysylltu â CTAIL i gael cyngor a chymorth o ran sut a phryd i wneud yr atgyfeiriad.

Dylai'r holl atgyfeiriadau at yr Awdurdod Cymwys ddod oddi wrth y gweithiwr proffesiynol arweiniol neu weithiwr cyfatebol yng ngwasanaeth gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol sy'n gweithredu ar ran y BLIDP, ac sy'n anfon copi o bob atgyfeiriad o'r fath at y Pwynt Cyswllt Unigol ar gyfer Masnachu Pobl yn yr heddlu lleol. Mae gofyn i'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Masnachu Pobl:

- Sicrhau bod gwaith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant priodol ar fasnachu pobl yn digwydd;
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o weithdrefnau lleol ar fasnachu pobl;
- Cynnig cyngor a chymorth i weithwyr proffesiynol sy'n cwblhau'r asesiad o ddioddefwyr y fasnach mewn pobl; a hefyd
- Cwblhau pob atgyfeiriad at yr Awdurdod Cymwys

Bydd swyddogion Mewnfudo Asiantaeth Ffiniau'r DU sy'n pryderu ynghylch plant a allai fod wedi cael eu masnachu'n atgyfeirio'r plant dan sylw at awdurdodau lleol yn y ffordd arferol, ac yn anfon copi o'r ffurflen atgyfeirio at yr Awdurdod Cymwys. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol wedyn fydd asesu anghenion y plentyn a'r risg o niwed. Lle mae dangosyddion cadarnhaol yn cael eu cadarnhau, dylai'r gweithiwr proffesiynol arweiniol ddefnyddio ffurflen atgyfeirio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i hysbysu'r Awdurdod Cymwys ynghylch yr achos.

Mesurau Amddiffyn a Chymorth Arbennig ar gyfer Dioddefwyr

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu y bydd cyfnod myfyrio o 45 diwrnod yn cael ei roi fel rhan o'r drefn arferol lle mae sail resymol i gredu bod person wedi cael ei fasnachu, ac y gellir rhoi trwyddedau preswylio dros dro dan amgylchiadau arbennig lle y

bo’n angenrheidiol i reoleiddio arhosiad y dioddefwr yn y wlad yma. Rôl yr Awdurdod Cymwys yw penderfynu, unwaith y mae achos posib wedi cael ei atgyfeirio, a gadarnhawyd fod sail resymol ac, yn ddiweddarach, sail derfynol i gofnodi’r person fel dioddefwr. Ceir mwy o wybodaeth am y modd y mae gofynion y Confensiwn yn cael eu cyflwyno yn y DU ar wefan y Swyddfa Gartref.


Child
Child development
Parenting capacity
Family / environment
Health ... Education ...
Emotional and behavioural development
... Family and social relationships ...
Identity
Basic care ... Ensuring safety ...
Guidance and boundaries ... Stability ...
Stimulation
Housing ... Family history .... Wider family
Community resources ... Social integration

A T O D I A D 1


First 24 hours
Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked
START
Front Line Agency
Has Concern Child may
Have been Trafficked
Complete
Risk
Assessment
Does
Trafficking Concern
Remain
YES
NO
Record
Outcome& Monitor
END
Intermediate
Referra
To Police
Intermediate
Referral to
Children's Services
Initiall by Phone
Then via Multi Agency
Referral Form
Including a copy of
Risk Assessment
2 Way
Communication
As Required
Children's Services
Duty Team or
Out of Hours Manager
Undertakes Enquiry &
Referral Process
Lead Officer
For Trafficking
Contacted for
Advice as required
Social Worker
Allocated
Refers to 24 Hour
Checklist
Go To
Page 2


First 24 hours
Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked
From Page 1
Are they A UASC
NO
YES
Referral to Translation Services As Necessary
Lead Officer Gives Advanced Notification to Competent Authority UKHTC
Referral to Lead Officer for Trafficking
Refer to UASC Procedures
Are They Known to Another LA ?
NO
YES
Consider referral to specialist organisations who can offer Interpreter/Advocate & Legal Support
Referral to United Kingdom Borders Agency
Referral to Lead Officer for Trafficking
Contact Other LA And Agree Transfer Safeguarding Plan
Responsibilities Transferred to Other LA Record Outcome on System
END
Initial Assessment Started
Trafficking Assessment Started
Social Worker
Refers/Consults:
Frontline Referring Agency
(Agrees Initial Safeguarding Plan & Books Conference)
Legal Department
IRO
(Book Initial LAC Review)
Police
LAC Nurse
(Request Paediatric Medical Within 6 Days)
Schools Inclusion Officer
Other Agencies as Required
To Page 3


Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked
Within 15 Days
Within 20 School Days
21 Days
Within 25 Days
From Page 2
Initial Child Protection Conference Considers Safeguarding Issues and Agrees CP Plan or CIN Plan if not Registered
Is Leagl Action Required to Safeguard Child
YES
Follow Court Procedures
NO
Is it An IFA or Out of County Placement
NO
YES
CP/CIN Plan Sent to MAAP
Complete PEP Within 20 School Days
LAC Placement Transfer Process
NO
Is The Placement Appropriate
YES
MAAP At 21 Days
YES
Is It An IFA or Out of County Placement
NO
Initial Core Group 10 Days After Conference If Registered
To Page 4


Within First 24 Hours
Within 6 Days
Within 7 Days
Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked
From Page 3
Is Immediate Legal Action Required to Safeguard Child
YES
Follow Procedures For Court Procedings
NO
LAC Process Initiated Child Accomodated Sec 20 Refer to Procedures for Emergency Placements and For Out of County Placements Social Worker phones Fostering Team & Completes Placement Request Form
Photograph Taken
LAC Medical By Paediatrician (If UASC they are Sent & Complete Section 7 of Age Assessment)
Initial Assessment Completed Within 7 Days
Outcome of Initial Assessment & Trafficking Assessment to Date Sent to Lead Officer For Trafficking
Lead Officer Completes NRM Referral Form/ Updates Risk Assessments And sends to Competent Authority UKHTC 01142 - 523891 07770 – 267286 nrm@ukhtc.pnn.police.uk
Competent Authority UKHTC Makes "Reasonable Grounds Decision" As to if child is "Likely" to be trafficked. Outcome Informs:
1) If Trafficking Assessment Needs to be continued as part of "Core Assessment".
2). Police Investigations.
3). Asylum Process if UASC.
Core Assessment Started
To Page 5


Within 1 Month
Within 35 Days
45 Days
Safeguarding Children Who May Have Been Trafficked
From Page4
LAC Statutory Review Within 1 Month of Start Of Placement
Core Assessment Completed and Trafficking Assessment Completed if not Within Initial Assessment Within 35 Days
Outcome of Core Assessment & Completed Trafficking Assessment Sent to Lead Officer for Trafficking
Lead Officer sends Outcome Of Completed Trafficking Assessment to Competent Authority UKHTC 01442 – 523891 or 0770 – 267286 nrm@ukhtc.pnn.police.uk
Competent Authority UKHTC Makes "Conclusive Decision" As to if child is "Confirmed/Not Confirmed" as having been trafficked.. Outcome Informs:
a) Ongoing Safeguarding Plan.
b) Police Investigations.
c) Asylum Process if UASC
d) If child is Eligible for UK Residence Permit.
LAC & Child Protection Conference Processes Continue as Required
END

Atodiad 3 Materion i Weithwyr Proffesiynol eu Hystyried

Isod ceir rhai materion y dylai gweithwyr proffesiynol eu hystyried wrth weithio gyda Phlant a Fasnachwyd

Dylai plant a fasnachwyd gael mynediad at y canlynol:

- Cyfieithwyr sydd wedi cael hyfforddiant priodol a gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer cyfieithu ar y pryd.
- Gwasanaeth Cwnsela.
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).
- Cyngor cyfreithiol annibynnol.
- Gwasanaethau meddygol.
- Addysg.
- Gwasanaeth i olrhain y teulu a chyswllt â'r teulu (ac eithrio pan nad yw hynny'n gyson â'u lles).
- Ailwladoli.

Bydd arnynt angen y canlynol hefyd:

- Bod ymarferwyr yn wybodus ac yn gymwys mewn materion sy'n ymwneud â masnachu plant a chamfanteisio arnynt.
- Rhywun i dreulio amser gyda hwy i feithrin lefel o ymddiriedaeth.
- Lleoliad saff os ydynt yn ddioddefwyr gweithrediad cyfundrefnol i fasnachu pobl.
- Cyngor cyfreithiol ynghylch eu hawliau a'u statws mewnfudo.
- Eu lleoliad daearyddol yn cael ei gadw'n gyfrinachol.
- Gweithwyr yn arfer doethineb a phwyll wrth olrhain eu teuluoedd.
- Asesiad risg i gael ei gwblhau i bwyso a mesur y perygl y maent yn ei wynebu os cânt eu hailwladoli.
- Cael eu cartrefu dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 – i'r rheiny sy'n cwrdd â'r meini prawf.
- Cael eu cyfweld ar wahân. Bydd plant a phobl ifanc fel arfer yn cadw at eu stori ac ni fyddant yn siarad nes eu bod yn teimlo'n gysurus.
- Dylid ystyried siarad gyda phlant a phobl ifanc gan ddefnyddio'r ffôn, e-bost, negeseuon testun

Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- Ystyried cyfweld â phlant yn yr ysgol, gan y byddant o bosib yn teimlo'n fwy parod i siarad yno.
- Sicrhau nad yw'r gofalwyr gerllaw.
- Sicrhau bod cyfieithwyr sy'n cyfieithu ar y pryd wedi'u cymeradwyo gan asiantaeth ac wedi cael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Plant a fasnachwyd sydd mewn gofal

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau asesiad craidd (adran 17 o Ddeddf Plant 1989) o anghenion y plentyn unwaith y bydd y plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, os nad yw wedi gwneud hynny'n barod. Dylai gael ei arwain gan y gweithiwr/gofalwr cymdeithasol. Dylai'r asesiad gynnwys:

- Canfod gwybodaeth berthnasol am gefndir y plentyn.
- Deall y rhesymau pam fod y plentyn wedi dod i'r DU
- Asesu pa mor agored yw'r plentyn i ddylanwad parhaus/rheolaeth barhaus y masnachwyr.

Mae'n rhaid i waith cynllunio a chamau gweithredu i roi cymorth i'r plentyn leihau i'r eithaf y risg y bydd y masnachwyr yn gallu cynnwys plentyn drachefn mewn gweithgareddau camfanteisiol. Felly:

- Ni ddylai lleoliad daearyddol y plentyn gael ei ddatgelu wrth unrhyw ymholwyr nes eu bod wedi cael cyfweliad gan weithiwr cymdeithasol ac nes y gwyddys pwy ydynt a beth yw eu perthynas/cysylltiad â'r plentyn, gyda chymorth yr heddlu a'r gwasanaethau mewnfudo os oes angen.
- Mae'n rhaid i ofalwyr maeth/gweithwyr preswyl fod yn wyliadwrus ynghylch unrhyw beth anarferol e.e. ceir yn disgwyl y tu allan i'r adeilad ac ymholiadau ar y ffôn.
- Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol hysbysu'r heddlu ar unwaith ynghylch unrhyw wybodaeth am y plentyn (sy'n ymwneud â risgiau i'w ddiogelwch neu unrhyw agwedd arall ar y gyfraith mewn perthynas ag amddiffyn plant neu fewnfudo neu faterion eraill), sy'n dod i'r fei yn ystod eu lleoliad.

Mae'n rhaid i weithiwr cymdeithasol y plentyn geisio cysylltu â rhieni'r plentyn yn y famwlad (efallai y bydd y gwasanaethau mewnfudo'n gallu helpu), i gael gwybod am y cynlluniau y maent wedi'u gwneud i'w plentyn a cheisio'u safbwyntiau. Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol gymryd camau i wirio'r berthynas rhwng y plentyn a'r rheiny y credir mai rhiant/rhieni'r plentyn ydynt a bod yn ofalus iawn rhag ofn bod rhiant wedi gwerthu eu plentyn yn fwriadol i fasnachwr plant.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaeth mewnfudo ymchwilio i unrhyw un sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol gan honni bod yn ofalwr posib neu'n ffrind i'r plentyn neu'n aelod o'i deulu ac ati. Dim ond os yw'r rheolwr goruchwyliol wedi'i argyhoeddi bod yr holl asiantaethau wedi cwblhau gwiriadau adnabod ac asesiadau risg boddhaol y gellir trosglwyddo'r plentyn i'w gofal.

Plant ar Goll

Mae ymchwil gan ECPAT a CEOP yn darparu tystiolaeth bod niferoedd sylweddol o blant sydd wedi'u categoreiddio fel Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain (UASC) hefyd wedi cael eu masnachu. Mae niferoedd sylweddol o'r plant hyn yn mynd ar goll (yn ôl i ofal y masnachwyr) cyn cael eu hadnabod yn iawn fel dioddefwyr masnachu. Mae'n allweddol bwysig hysbysu'r heddlu ar frys ynghylch achosion o'r fath. Mae'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo'n cydweithio'n agos gyda DCSF, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r Llinell Gymorth Pobl ar Goll (Y Llinell Gymorth Genedlaethol Pobl sydd ar Goll gynt) i ddatblygu arferion, sy'n rhybuddio'r heddlu ar y cyfle cynharaf ynghylch plant sydd o bosib 'mewn perygl'.

Lle mae person ifanc, megis Plentyn Sy'n Ceisio Lloches Ar Ei Ben Ei Hun (UASC) er enghraifft, yn ei gyflwyno'i hun i awdurdod lleol fel rhywun heb riant na gwarcheidwad yn y wlad yma, yna er mwyn cyflawni'i ddyletswyddau i asesu ac ymateb i anghenion y person ifanc, gall yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad y dylai "gartrefu'r" person ifanc gan ddefnyddio'i bwerau dan Adran 20 o Ddeddf Plant 1989. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau tuag at y person ifanc fel plentyn sy'n derbyn gofal. Dan yr amgylchiadau hyn, yn yr un modd â phlant eraill sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid bod gan Blant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain gynllun gofal (a adwaenir fel "cynllun llwybr gofal" pan eu bod yn 16+ a bod ganddynt hawl i gymorth wrth adael trefniant gofal) sy'n seiliedig ar asesiad trylwyr o'u hanghenion a hwnnw'n amlinellu sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cwrdd â'u hanghenion.

Lle mae rheswm dros gredu bod person ifanc wedi cael ei fasnachu i mewn i'r DU, yna dylai'r cynllun gofal hwn gynnwys "asesiad risg" sy'n nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diogelu'r person ifanc fel ei fod, yn gymaint ag sy'n bosib, yn gallu cael ei amddiffyn rhag unrhyw fasnachwr. Gallai'r asesiad risg hwn gynnwys cynlluniau wrth gefn hefyd y dylid eu dilyn pe bai'r person ifanc yn mynd ar goll.

O ystyried yr amgylchiadau sy'n bodoli pan fo pobl ifanc a allai fod wedi cael eu masnachu'n eu cyflwyno'u hunain i awdurdodau lleol bydd yn eithriadol o bwysig bod unrhyw asesiadau o anghenion ac "asesiadau risg" cysylltiedig yn cael eu rheoli'n sensitif. Mae angen i'r plentyn fod mewn lle diogel cyn bod unrhyw asesiad yn digwydd. Mae angen i unrhyw asesiad ystyried na fydd y plentyn o bosib yn gallu datgelu gwybodaeth lawn ar unwaith am ei amgylchiadau gan y bydd masnachwyr o bosib wedi dychrynu'r plentyn neu ei deulu.

Bydd hefyd yn bwysig iawn nad oes unrhyw beth yn cael ei dybio ynghylch sgiliau iaith pobl ifanc a bod asesiadau'n gallu galw ar wasanaethau cyfieithwyr diduedd sydd â'r cymwyseddau angenrheidiol ar gyfer ymateb i blant.

Gallai'r cynllun wrth gefn gynnwys manylion cyswllt asiantaethau y mae'n rhaid eu hysbysu os bydd person ifanc a allai fod wedi cael ei fasnachu'n mynd ar goll. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu a'r "rheolwr achos" yn Asiantaeth Ffiniau'r DU. Lle mae pryderon bod plentyn a fasnachwyd wedi cael ei symud i ran arall o'r wlad i ffwrdd o'i leoliad gofal, yna gall fod yn ddymunol cysylltu â'r Llinell Gymorth Pobl ar Goll: http://www.missingpeople.org.uk/

Mae gan y Llinell Gymorth Pobl ar Goll dîm sy'n cynnig cymorth i awdurdodau lleol pan fo pobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt yn mynd ar goll a gall y gwasanaeth hwn gynghori ynghylch materion megis cyswllt â heddluoedd a chyhoeddusrwydd cenedlaethol.

Mewn ymateb i hysbysu'r heddlu ynghylch plentyn sydd ar goll dylid dilyn y canllawiau yn '*The Management, Recording and Investigation of Missing Persons'* (http://www.acpo.police.uk/asp/policies/Data/missing_persons_2005_24x02x05.pdf).

Mae'r canllawiau'n nodi:

- Y dylai pob hysbysiad ynghylch person sydd ar goll gael ei asesu i ganfod lefel y risg (uchel, canolig neu isel) i'r person sydd ar goll.
- Y dylai'r ymateb fod yn briodol i lefel y risg.
- Y dylai asesiadau risg gael eu hadolygu'n barhaus.
- Bod plant sy'n mynd ar goll o leoliadau gofal yn agored i niwed ac nad yw lefel y risg yn gostwng oherwydd amlder yr absenoldeb.

Lle mae plant sydd ar goll yn dod i sylw gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol neu'r heddlu gall gwasanaeth ymholiadau 24-awr gan Ganolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig (UKHTC) helpu i roi arweiniad. Yn ogystal â hynny, i helpu gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu ac ymarferwyr eraill roi cymorth gwell i blant y maent yn amau y gallent fod wedi cael eu masnachu, mae'r NSPCC wedi sefydlu'r *Llinell Cyngor a Gwybodaeth Ynghylch Masnachu Plant.*

Mae'n rhaid i'r holl awdurdodau lleol benodi uwch reolwr dynodedig â chyfrifoldeb am fonitro digwyddiadau lle mae plentyn wedi mynd ar goll o leoliad gofal, fel y gellir adnabod tueddiadau a chymryd camau gweithredu ar y cyd â'r BLIDP i ymateb i'r broblem. Dylai tueddiadau gael eu rhannu gyda'r BLIDP hefyd. Gallai'r uwch reolwr dynodedig o bosib ysgwyddo rôl strategol bwysig o ran adnabod a oes unrhyw batrymau arbennig lle mae Plant Sy'n Ceisio Lloches Ar Eu Pen Eu Hunain yn mynd ar goll, patrymau a allai ddarparu tystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn cael eu masnachu. Gallai gwybodaeth o'r fath gael ei defnyddio gan awdurdod lleol i oleuo'i ddadansoddiad o ran sut y gallai ddiogelu'r bobl ifanc hyn yn well.

Atodiad 4 Cyfarwyddyd arfer da ar gyfer plant a fasnachwyd sydd mewn gofal

Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i fwriadu i roi cymorth i weithwyr proffesiynol ym meysydd Gofal Cymdeithasol ac Addysg, gofalwyr maeth a staff preswyl i gwrdd ag anghenion plant a fasnachwyd sydd mewn darpariaeth gofal.

Sylwer: mae a wnelo nifer o'r camau gweithredu hyn â monitro neu gyfyngu ar symudiad/cyswllt/arian fel dull diogelu. Nid gwneud i'r plentyn deimlo'i fod wedi'i garcharu yw'r bwriad. Mae'n rhaid i unrhyw fesurau diogelu ymdrechu i beidio ag ailadrodd nac efelychu unrhyw brofiadau o fasnachu neu gamfanteisio a gafwyd gan y plentyn, a allai gynnwys cyfyngiadau difrifol ar ryddid y plentyn.

Cam Gweithredu	Materion i'w hystyried
Cyswllt cyntaf gyda'r plentyn	Tynnu ffotograff (ar unwaith fel cam gweithredu i ddiogelu'r plentyn, gan fod plant yn gallu mynd ar goll o fewn 24 awr)
Diogelwch y plentyn	○ Rhoi cerdyn (wedi'i lamineiddio?) i'r plentyn a hwnnw'n cynnwys cysylltiadau brys – gofalwyr, yr heddlu, Gwasanaethau Plant. ○ Sicrhau bod y plentyn yn gwybod sut mae deialu 999 a bod y plentyn yn gwybod bod hwn yn rhif rhad ac am ddim. ○ Archwilio cysyniadau blaenorol y plentyn o ffigyrau mewn awdurdod/iwnifform. Sicrhau bod y plentyn yn deall rôl y Gwasanaethau Plant a'r heddlu – diogelwch. ○ Dylid gofyn i'r plentyn bob amser pa fesurau fyddai'n gwneud iddo/iddi deimlo'n ddiogel.
Lleoliadau diogel	**Math**: ○ Gofal maeth ynteu lleoliad preswyl? Dylai fod gan ofalwyr/staff preswyl ymwybyddiaeth o fasnachu plant a'r effaith ar ddioddefwyr. ○ Mae goruchwyliaeth fanwl gan oedolyn yn hanfodol. Bydd asesiad o'r anghenion/risgiau'n pennu lefel yr oruchwyliaeth gan oedolion sy'n ofynnol, ond i ddechrau dylid ystyried monitro 24/7, gan ei bod yn bosib na fydd y risgiau llawn yn amlwg.

	○ Dylid ystyried anghenion diwylliannol – a yw'n briodol lleoli'r plentyn gyda gofalwyr o'r un cefndir diwylliannol, ynteu a yw hyn yn creu pryderon ynghylch cysylltiad â phrofiadau yn y gorffennol, cysylltiadau â'r gymuned ddiwylliannol a'r risg o gael eu hadnabod ac ati. Dylid hefyd ystyried materion gwarthnod, a pha un a yw'r plentyn yn teimlo'n gysurus yn cymdeithasu â'i grŵp diwylliannol. **Lleoliad daearyddol:** ○ Mae'n rhaid i leoliad y plentyn fod yn gyfrinach. Ni ddylid ei ddatgelu wrth berthnasau/ffrindiau/cysylltiadau honedig nes bod asesiad risg llawn wedi cael ei gwblhau. Mae'r un rhagofalon yn ofynnol ar gyfer unrhyw gyswllt â theulu gwreiddiol y plentyn. ○ Os yw'r plentyn newydd gyrraedd yn y DU, dylid ystyried ei stori am ei siwrne – a yw ei edrychiad corfforol yn gyson â'i stori am y daith? A oes unrhyw arwyddion y gallai'r plentyn fod wedi bod yn y DU am beth amser? A yw dillad y plentyn yn debygol o fod wedi cael eu prynu yn y DU; a yw'r plentyn yn gyfarwydd â'r ardal, cludiant, arian, iaith, a bwyd lleol? Os felly, efallai fod gan y plentyn gysylltiadau lleol – dylech ystyried y risg o leoli'r plentyn yn yr ardal leol os yw'r plentyn eisoes yn adnabyddus yn lleol i unigolion/masnachwyr. ○ Dylid ystyried cysylltiadau posib neu bresennol â rhwydweithiau masnachu pobl. A oes cymuned leol fawr o bobl sydd o'r un grŵp ethnig/diwylliannol â'r plentyn – a oes risg y gallai'r plentyn gael ei adnabod pan ei fod ynghanol pobl neu sefydlu cysylltiadau anniogel? **Diogelwch yn y lleoliad:** ○ A oes rhagofalon ychwanegol yn ofynnol megis teledu cylch cyfyng? ○ Mae'n rhaid i ofalwyr fod yn llwyr ymwybodol o gefndir plentyn a chysylltu ar unwaith â'r heddlu os oes pryderon ynghylch perygl. ○ Dylid ystyried hanes y plentyn – a yw'r plentyn yn achosi risg i blant eraill? ○ Dylid ystyried y risg o leoli plentyn gyda phlentyn arall o'r un cefndir diwylliannol neu gefndir masnachu – gallai un plentyn ailsefydlu cyswllt â masnachwyr neu efallai nad yw erioed wedi colli cyswllt, rhywbeth a allai roi'r ail blentyn mewn perygl. ○ Mae'n rhaid i ofalwyr/staff preswyl fod yn effro i unrhyw oedolion/pobl ifanc/ceir yn loetran. Dylent fod yn wyliadwrus a nodi unrhyw fanylion megis rhif cofrestru'r car/disgrifiad o'r car, enwau a disgrifiadau

	o unrhyw unigolion sy'n loetran.
Ffonau	**Ffôn symudol:** o A oedd ffôn symudol gan y plentyn pan gyrhaeddodd? Dylech ystyried cymryd ffôn symudol oddi ar y plentyn neu roi cerdyn SIM newydd i mewn nes bod y risg wedi cael ei asesu. Dylech ystyried cymryd cofnod ar wahân o unrhyw enwau/rhifau sydd wedi'u storio yn y ffôn symudol a manylion galwadau diweddar. Os byddwch yn rhoi cerdyn SIM newydd yn y ffôn dylech gofio y gallai'r plentyn fod wedi dysgu rhifau cyswllt masnachwyr ar ei gof o Dan rai amgylchiadau gallai ffôn symudol fod yn fodd i ddilyn (triongli) lleoliad daearyddol y plentyn os yw wedi mynd ar goll **Ffonau yn y lleoliad**: o Dylid asesu a yw mynediad at ffôn/y Rhyngrwyd yn golygu bod risg y bydd y plentyn yn cysylltu â masnachwyr ac yn peryglu ei leoliad. o Os yw'r plentyn wedi'i leoli gyda phlant eraill, a yw'n gallu cael mynediad at ffonau symudol plant eraill?
Gofalwyr/staff	**Dylid monitro'r plentyn gan gadw golwg am y canlynol**: o Pryderon/trawma/anafiadau/arwyddion o gamdriniaeth. o A yw arian neu waith, neu'r awydd i gysylltu â rhywun, yn pwyso ar feddwl y plentyn? o A yw'r plentyn i'w weld yn gweithredu ar gyfarwyddyd oedolyn? o A yw'r plentyn yn ochelgar ynglŷn â'i berthnasoedd a gweithgareddau beunyddiol? o Tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau. **Monitro gwaith/camfanteisio**: o A yw'r plentyn mewn dyled? o Patrymau symud – gadael yn gynnar/dod adref yn hwyr, allan yn gyson ar benwythnosau? Arwyddion corfforol bod y plentyn yn gweithio – wedi blino'n ormodol, poen cefn, cur pen, cosi poenus ar y croen (dylid ystyried a yw'r plentyn yn gwneud gwaith llaw, yn gweithio oriau hir, yn gweithio dan amodau gwaith gwael neu anhylan). o Arwyddion o gamfanteisio rhywiol?

Dillad/eiddo	**Pan fydd y plentyn yn cyrraedd dylid archwilio eiddo a dillad y plentyn gan gadw golwg am y canlynol**: o Rhifau cyswllt (gallant fod wedi'u celu mewn dillad). o Storïau ar bapur y mae wedi'i hyfforddi i'w hadrodd. o Enwau pobl. o Papurau meddygol neu wybodaeth am y math o grŵp gwaed (posibilrwydd o fasnachu er mwyn tynnu organau. Er nad oes achosion wedi'u cofnodi yn y DU mae amheuon y gallai masnachu plant er mwyn tynnu organau fod yn digwydd mewn gwledydd Ewropeaidd eraill). o Eiddo sydd i'w weld yn amhriodol i oedran neu ddiwylliant y plentyn neu stori'r plentyn am ei daith. **Monitro parhaus**: o A yw'r plentyn yn cael eiddo newydd ac arian heb unrhyw ffynhonnell gredadwy? o A yw'r plentyn wedi cael un ffôn symudol neu fwy heb esboniad? o A oes pobl anhysbys yn cysylltu â'r plentyn?
Mynediad yn y lleoliad at ddogfennau ac ati	o Dylid ystyried unrhyw fynediad sydd gan blentyn o bosib at ddogfennau, arian, Cardiau Teithio (cyfle i deithio). A yw mynediad at eitemau o'r fath yn galluogi'r plentyn i'w defnyddio i fynd ar goll? o Dan rai amgylchiadau gall Cerdyn Teithio fod yn fodd i ddilyn siwrne'r plentyn os yw wedi mynd ar goll. o Rheolaeth ar bapurau mewnfudo/ pasbortau – os oes risg y gallai'r plentyn deithio dramor; dylid ystyried pwy ddylai gadw'r dogfennau hyn.
Symudiad y tu allan i'r lleoliad	**Dylid ystyried**: o A ddylid caniatáu i'r plentyn fynd allan ar ei ben ei hun, gyda phlant eraill? o A ddylai gofalwyr oruchwylio symudiad y plentyn? o Cyfyngu ar symudiad ac ymwelwyr (y bobl y mae'n cysylltu â hwy, y gweithgareddau y mae'n cymryd rhan ynddynt)? o A yw'n briodol i'r plentyn fynychu sefydliadau crefyddol, canolfannau cymunedol ac ati? A yw'n ddiogel i'r plentyn fod yn creu cysylltiadau â'i grŵp diwylliannol ei hun (dylid ystyried gwersi crefyddol preifat, gweithgareddau eraill gyda chymheiriaid sy'n denu cynrychiolaeth ddiwylliannol ehangach)?
Cyfnodau ar Goll	o Mae risg uchel y bydd plant a fasnachwyd yn mynd ar goll, ac er nad yw'r risgiau llawn i'r plentyn o

	bosib yn eglur, mae'n rhaid cofio y gallai'r potensial ar gyfer niwed ddigwydd ar unwaith a phara am amser hir. Mae'n rhaid i gynllun gofal y plentyn gynnwys asesiad risg a chynllun wrth gefn os bydd y plentyn yn mynd ar goll.
Anghydfod ynghylch Oedran	○ Lle ceir pryder y gall fod plentyn wedi cael ei fasnachu a bod anghydfod ynghylch oedran yn codi, dylid rhoi mantais yr amheuaeth i'r plentyn o ran ei oedran nes bod oedran y plentyn wedi cael ei wirio.
Addysg	○ Dylid ystyried gallu'r plentyn i gymryd rhan mewn addysg ac unrhyw gymorth arbenigol y mae'i angen ac sydd o bosib yn deillio o brofiadau'r plentyn o gael ei fasnachu/cam-drin/gwahanu. ○ Dylid ystyried unrhyw risg y gallai presenoldeb y plentyn yn yr ysgol ei achosi i blant eraill. ○ Dylai staff fod yn effro i oedolion/ pobl ifanc neu geir yn loetran ar bwys yr ysgol neu'n cysylltu â'r plentyn. ○ Dylai staff fod yn ymwybodol o'r risg y gallai plentyn gael ei gipio neu ei ddychrynu. ○ Cymorth addysgol arbenigol – dylid ystyried iaith, bylchau mewn addysg neu ddiffyg addysg. ○ Dylid monitro arwyddion o weithio/dioddef camfanteisio – archwilio triwantiaeth, presenoldeb gwael, a blinder yn yr ysgol.
Cyngor cyfreithiol/ cynrychiolaeth gyfreithiol	○ Dylid ceisio cyngor cyfreithiol/cynrychiolaeth gyfreithiol arbenigol mewn perthynas â masnachu pobl, mewnfudo a throseddolrwydd dan orfodaeth ○ Dylid darparu taflen ffeithiau/llinell amser am brosesau mewnfudo i leihau pryderon i'r eithaf. ○ Ni ddylid byth gorfodi plentyn i gydweithredu ag achos troseddol yn erbyn masnachwyr, ac mae'n rhaid hysbysu'r plentyn yn llawn ynghylch risgiau a'r drefn gydag achosion llys cyn iddynt benderfynu a ydynt yn fodlon tystio ai peidio. Dylid cyfeirio at Ganllawiau UNICEF ar Amddiffyn Plant sy'n Ddioddefwyr y Fasnach mewn Pobl.
Arian	**Dylid ystyried rheoli arian poced neu fonitro'r modd y mae'r plentyn yn defnyddio arian**: ○ A yw'r plentyn yn defnyddio'r arian er mwyn cael cyswllt anawdurdodedig? Mynediad at y Rhyngrwyd, galwadau ffôn, prynu cardiau ffôn? ○ Defnyddio cynilion/lwfans heb eglurhad – a yw'r plentyn yn rhoi ei lwfans i rywun arall? ○ A oes ar y plentyn eisiau mwy nag un cyfrif banc? At ba ddiben? A yw'r plentyn yn ceisio atal pobl rhag monitro'i faterion ariannol? Dylid ystyried a yw gwyngalchu arian yn digwydd – gallai pobl eraill fod yn defnyddio cyfrif y plentyn.

	○ A yw'r plentyn yn arbed arian at unrhyw ddiben (megis teithio'n rhyngwladol)?
Iechyd	**Iechyd Corfforol**: ○ Mae angen i wiriadau ac ymatebion mewn perthynas ag iechyd roi cyfrif am siwrne'r plentyn, camfanteisio, cam-drin ac esgeuluso. ○ Dylid ystyried triniaeth y plentyn, amodau peryglus, a mynediad at angenrheidiau megis bwyd, dŵr a lloches, diffyg maeth, wedi bod mewn tywydd garw, wedi dod i gysylltiad ag amodau anhylan neu afiechydon heintus, anafiadau, profiadau o arwahanrwydd. ○ Gwiriadau deintyddol – mae anghenion deintyddol plant a fasnachwyd yn cael eu hesgeuluso'n aml. ○ Imiwneiddiadau. ○ Gwiriadau iechyd rhyw. ○ Problemau anadlu neu resbiradol (dylid ystyried plant mewn ffatrïoedd canabis). ○ Os amlygwyd problem camddefnyddio cyffuriau, dylid ystyried atgyfeiriad at wasanaethau arbenigol. **Iechyd Emosiynol/Seicolegol**: ○ Gwasanaethau therapiwtig/seicolegol i'r plentyn archwilio'i brofiadau o gael ei fasnachu/cam-drin/gwahanu. ○ Dylid datblygu ymwybyddiaeth y plentyn o risgiau a dealltwriaeth y plentyn am gam-drin/camfanteisio. ○ Dylid ystyried trawma, anhunedd, iselder, a hunan-fri isel. ○ Dylid defnyddio dulliau normaleiddio i leihau cywilydd a gwarthnod. ○ Dylid datblygu gallu'r plentyn i fynegi'i deimladau'n briodol. ○ Dylid datblygu sgiliau datrys problemau'r plentyn a'i allu i ymateb i heriau.
Ymddygiad	**Dylid ystyried cymorth ar gyfer cymdeithasu priodol**: ○ Gall fod y plentyn wedi dioddef profiadau camdriniol neu gamfanteisiol maith ac efallai nad yw'n deall pa ymddygiad sy'n briodol. Gall plant y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol neu a gafodd eu paratoi at ddibenion camfanteisio'n rhywiol fod â diffyg ymwybyddiaeth o ffiniau. **Anawsterau ymddygiadol yn y lleoliad neu yn yr ysgol – dylid ystyried a oes masnachwr yn rhoi pwysau ar y plentyn i gael ei symud i ofal y masnachwr, a pha un a yw'r plentyn yn fwriadol yn**

	ceisio gwneud i leoliad fethu, neu a yw plentyn hŷn dan bwysau i adael yr ysgol i weithio. ○ Dylid ystyried y posibilrwydd bod perthnasau camdriniol wedi cael eu normaleiddio a pha un a yw'r plentyn wedi datblygu perthynas ddibynnol gyda'r masnachwr. ○ Dylid ystyried gallu'r plentyn i bwyso a mesur risg, ac i wahaniaethu rhwng bwriadau caredig a sinistr pobl eraill. ○ Dylid ystyried gwahaniaethau diwylliannol a gwahaniaethau rhwng y rhywiau. ○ Gall fod plentyn wedi cael ei orfodi i gyflawni rolau/gwaith oedolyn, ac efallai nad yw'n ymddwyn fel plentyn. ○ Gall natur ddirgel masnachu pobl greu 'meddylfryd sy'n perthyn i'r isfyd' – gall y plentyn ymddwyn yn ddichellgar. **Dylid datblygu ffactorau amddiffynnol** – ymdeimlad o ddiogelwch corfforol ac emosiynol, perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion, dyheadau, diddordebau a gweithgareddau, darparu patrwm ymddygiad/mentora, sgiliau diogelwch personol.
Gwaith/camfanteisio	○ Mae angen gwneud y plentyn yn ymwybodol o gyfraith y DU mewn perthynas â chyflogaeth a'r hyn sy'n gyfystyr â chamfanteisio. ○ Mae angen datblygu dyheadau plant (dylid ystyried mentora). ○ Dylid archwilio canfyddiadau'r plentyn am waith/rhwymedigaeth i ddarparu ar gyfer y teulu, canfyddiadau'r plentyn am gamfanteisio/cam-drin. ○ Dylid archwilio unrhyw arwydd y gallai plentyn fod yn gweithio.
Cyswllt â pherthnasau/ffrindiau yn y DU o famwlad y plentyn	**Dylid archwilio'r risg. Dylid ystyried rheoli**: ○ Mynediad corfforol. ○ Mynediad at ffôn/Y Rhyngrwyd. ○ Symudiad (gweler 'Symudiad y tu allan i'r lleoliad').
Cyswllt â'r gymuned ehangach neu'r grŵp diwylliannol y mae'r plentyn yn hanu ohoni/ohono	○ Dylid ystyried y risg pe bai'r plentyn yn cael ei roi mewn lleoliad daearyddol lle mae cymuned fawr o bobl o'r un grŵp diwylliannol â hwy, dylid ystyried a fydd y plentyn yn cael ei adnabod (e.e. yn y mosg, mewn siopau lleol, grŵp ieuenctid ac ati) – a fydd yn dechrau sefydlu cysylltiadau anniogel ag aelodau o'r gymuned? ○ Dylid ystyried proffil cyhoeddus y plentyn h.y. os yw'r plentyn yn cael ei leoli mewn cymuned wledig

	fechan a yw'n hawdd adnabod y plentyn yn rhinwedd ei wahaniaethau? ○ Dylid ystyried y risg i'r plentyn a allai ddeillio o unrhyw sylw yn y cyfryngau (e.e. cyhoeddusrwydd, cydnabyddiaeth i gyflawniadau ym myd chwaraeon neu addysg trwy'r cyfryngau) – a oes risg y gellid datgelu pwy yw'r plentyn a'i leoliad daearyddol? ○ Mae'n rhaid cymryd yr holl fesurau angenrheidiol i ddiogelu preifatrwydd y plentyn a'i deulu i sicrhau eu bod yn saff a diogel.
Olrhain y Teulu ac Ailwladoli	○ Dylid gwneud ymdrechion i gysylltu â theulu'r plentyn ac eithrio lle penderfynir y byddai gwneud hynny'n groes i'r hyn sydd orau er lles y plentyn. Ni ddylid datgelu manylion y plentyn wrth y teulu nes bod asesiad risg llawn wedi cael ei gwblhau. ○ Efallai nad yw ailwladoli'r plentyn a'i aduno gyda'i deulu'n cyd-fynd â'r hyn sydd orau er lles y plentyn. Mae'n rhaid i asesiad risg ystyried ffactorau sy'n gwneud y plentyn yn agored i niwed ac a allai arwain at fasnachu'r plentyn drachefn ac/neu gamfanteisio neu gam-drin, yn ogystal â'r gwarthnod y gallai'r plentyn ei wynebu pe bai'n cael ei ddychwelyd.

Atodiad 5 Deddfwriaeth

Ewrop

- Penderfyniad Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd ar Frwydro yn Erbyn y Fasnach mewn Pobl (2002)
- Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn y Fasnach mewn Pobl (2005) – Heb ei lofnodi gan y DU

Rhyngwladol

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) – Cadarnhawyd gan y DU ar 16 Rhagfyr (1991)
- Datganiad ac Agenda Stockholm ar gyfer Gweithredu yn erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Fasnachol (1996)
- Confensiwn 182 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar y Mathau Gwaethaf o Lafur Plant (1999)
- Protocol y Cenhedloedd Unedig i Atal, Llethu a Chosbi'r Arfer o Fasnachu mewn Pobl, yn Enwedig Menywod a Phlant (2000)

Y DU

- Deddf Plant (1989)
- Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd (2002)
- Deddf Elw Troseddau, Atodlen 2 a Rhan 7 (2002) (sy'n ymwneud â throseddau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw a gwyngalchu arian)
- Deddf Troseddau Rhyw (2003)
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Trwyddedu Gangfeistri (2004)
- Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlyddion) 2004
- Y Mesur Seneddol ar Gardiau Adnabod, Cymal 27 (5) (2004) (sy'n ymwneud â dogfennau hunaniaeth ffug).

Atodiad 6 Camau gweithredu yn dilyn masnachu plant

Mae asesu parodrwydd a gallu dioddefwr sy'n blentyn i dystio yn erbyn masnachwr yn gymhleth. Bydd hyn yn gymwys i'r broses o gasglu gwybodaeth a allai ategu achosion llys sy'n ymwneud â gofal, yn ogystal â bod o gymorth mewn erlyniadau troseddol. Yn yr un modd â dioddefwyr cam-drin domestig, mae'r plentyn fel arfer yn ofni y bydd y masnachwyr ac/neu'r oedolion yr oedd yn byw gyda hwy yn y DU yn dial arnynt os byddant yn cydweithredu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Yn achos plant a fasnachwyd o dramor gall fod lefel ychwanegol o bryder oherwydd ofn y bydd masnachwyr yn dial yn erbyn eu teulu yn eu mamwlad. Gallant hefyd ofni cael eu halltudio am eu bod wedi dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon. Mae plant sydd o bosib yn cytuno i dystio'n ofni y byddant yn dwyn anfri arnynt hwy eu hunain am eu bod wedi cael eu gorfodi i ddweud celwydd ar eu ceisiadau am deithebau/papurau mewnfudo. Ni ellir gorfodi unrhyw blentyn i dystio yn erbyn masnachwr.

Dychwelyd plant a fasnachwyd

Dylai penderfyniad i ddychwelyd plentyn a fasnachwyd i'w famwlad gael ei wneud ar sail yr hyn sydd orau er lles y plentyn ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus, gan gynnwys ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn a gwybodaeth a ddarparwyd gan weithiwr cymdeithasol y plentyn. Mae'n arbennig o bwysig casglu gwybodaeth am deulu, cymuned a mamwlad y plentyn.

Ymhlith ffactorau eraill dylai'r asesiad risg ystyried a oes risg y gallai'r camdrinwyr gael mynediad at y plentyn a'i deulu er mwyn dial. Mae angen ystyried y risg o fasnachu drachefn yn ogystal ag agweddau cymdeithasol tuag at ddioddefwyr amryw fathau o gamdriniaeth gan gynnwys cam-drin rhywiol.

Mewn rhai achosion a chyda chyngor gan eu cyfreithwyr gall plant wneud cais i Asiantaeth Ffiniau'r DU am amddiffyniad dyngarol rhyngwladol ar sail yr asesiad risg. Mewn achosion eraill gall amseriad a natur eu dychweliad gael eu cynllunio gyda chymorth gan Asiantaeth Ffiniau'r DU.

Mae dychwelyd plant, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain, nad oes hawl ganddynt i aros yn y DU, yn angenrheidiol er mwyn cynnal rheolaeth fewnfudo, ond byddai diogelu lles y plentyn wastad yn ystyriaeth allweddol yn unrhyw benderfyniad i ddychwelyd

plentyn. Ni fyddai plentyn heb unrhyw hawl gyfreithiol i aros yn y DU ond yn cael ei ddychwelyd i'w famwlad pe bai'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo wedi'i argyhoeddi bod trefniadau diogel a digonol yn bodoli ar gyfer derbyn y plentyn.

Atodiad 7 Materion iechyd i'w hystyried gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a fasnachwyd

Imiwneiddio ac arolygu plant

Mae rhaglenni imiwneiddio ac arolygu plant yn amrywio o un wlad i'r llall. Gall plant gyrraedd ag amserlenni imiwneiddio anghyflawn, hanes imiwneiddio anhysbys, neu heb fod wedi cael unrhyw imiwneiddiadau na rhaglenni sgrinio blaenorol; mae'r sefyllfa olaf o blith y rhain yn fwy tebygol mewn plant sy'n cyrraedd o wledydd sydd naill ai heb unrhyw isadeiledd iechyd neu heb lawer o isadeiledd iechyd o ganlyniad i dlodi eithaf, rhyfel, neu'r ddau. Mae rhaglen imiwneiddio dal-i-fyny'n cael ei hargymell gan yr Adran Iechyd ac mae amserlen sy'n cynghori sut i wneud hyn yn cael ei darparu gan Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU[1].

Mae Health for All[2] yn darparu argymhellion seiliedig-ar-dystiolaeth ynghylch arolygu iechyd plant a hybu iechyd plant. Byddai'n ymddangos yn rhesymol sicrhau y dylai plant sy'n cyrraedd o wledydd heb raglen arolygu gynhwysfawr gael mynediad at adolygiad iechyd dal-i-fyny sy'n ei gwneud yn bosib sgrinio am broblemau datblygiadol cyffredin, abnormaleddau cynhenid, ac yn rhoi mynediad i rieni at gyngor ynghylch hybu iechyd sy'n briodol i oedran y plentyn. Mae RCPCH yn cynghori hyn ar gyfer yr holl ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd[3], ond mae gan blant sy'n cyrraedd nid fel ffoaduriaid ond o wledydd sydd heb lawer o adnoddau anghenion tebyg o ran imiwneiddio ac arolygu iechyd. Mae'n rhaid ystyried sgrinio am anhwylderau genetic, megis mathau o hemoglobinopathi neu G6PD (anaemia diffyg ensymau sy'n brin) mewn poblogaethau risg uchel.

Yn anaml iawn gall fod plant wedi dod i gysylltiad â gwenwynau amgylcheddol yn eu gwlad enedigol, neu ag arferion diwylliannol sy'n achosi niwed anfwriadol i blant, e.e. rhoi cohl sy'n cynnwys plwm ac enwaedu benywod. Mae angen i glinigwyr fod yn effro i'r posibiliadau hyn ac ymateb yn briodol.

Heb system ar waith i adnabod plant sydd newydd gyrraedd, bydd plant ac arnynt angen rhaglen imiwneiddio dal-i-fyny a rhaglen arolygu iechyd yn mynd heb eu canfod, gyda chanlyniadau i iechyd y cyhoedd, ac i'w hiechyd, lles ac addysg hwy eu hunain. Mae'n hollbwysig bod yr holl Fyrddau Iechyd Lleol neu gyrff cyfatebol yn gweithredu gweithdrefnau i adnabod plant o'r fath. Mae gan ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, ac ysgolion ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth.

Sgrinio am heintiau a chlefydau heintus

Gall plant sydd newydd gyrraedd o wlad dramor, gan ddibynnu ar eu gwlad enedigol, neu eu llwybr teithio i'r DU, fod mewn perygl o ddal heintiau penodol, y gall rhai ohonynt fod yn heintus hefyd ac felly ddwyn goblygiadau ehangach i iechyd y cyhoedd. Gall rhai plant fod yn amlwg yn sâl, ond bydd eraill heb unrhyw hanes, arwyddion na symptomau sy'n awgrymu bod unrhyw haint arnynt. Mae "Llyfr Melyn" yr Adran Iechyd yn adnodd amhrisiadwy sy'n cynnwys gwybodaeth am risgiau o glefydau fesul cyfandir a gwlad[4].

Y plentyn iach. Mae angen i'r hanes gynnwys y wlad enedigol a'r llwybr teithio i gartref newydd y plentyn, a allai amlygu risg uchel o ddal rhai heintiau penodol. Mae hefyd yn ddoeth holi am gysylltiad â llaeth heb ei basteureiddio, cig heb ei goginio, mynediad gwael at ddŵr a chyfleusterau glanweithdra, trallwysiad gwaed, chwistrellau wedi cael eu hailddefnyddio ar gyfer imiwneiddio, ac unrhyw hanes teuluol perthnasol e.e. o'r diciâu (TB), hepatitis B, neu HIV. Yn achlysurol mae'n angenrheidiol ymholi ynghylch gweithgarwch rhywiol gan gynnwys cam-drin rhywiol neu dreisio.

Mae peth trafod am ehangder y sgrinio y mae'i angen ar gyfer plentyn iach. Dylai'r clinigwr fod yn glir a yw unrhyw brawf yn un er lles y plentyn ynteu er lles y gymuned ehangach, a chadw mewn cof gostau profion ar gyfer cyflyrau annhebygol, a allai fod yn ddrud. Mae'n rhesymol ystyried y tebygolrwydd o'r diciâu, heintiad HIV, hepatitis B, a llyngyr y perfeddion, y mae'r profion i gyd yn hawdd i'w gwneud (er bod angen i brofion HIV gael eu gwneud mewn modd sensitif a bod â chymorth priodol wrth gefn i ymdrin â chanlyniadau positif). Yn dechnegol dylai newydd-ddyfodiaid o ardaloedd risg uchel fod wedi cael eu sgrinio wrth ddod i mewn i'r wlad, er bod ein profiad ni'n dangos bod y system hon yn methu â chanfod nifer o blant sydd mewn perygl ac na ellir dibynnu arni. Os oes gan glinigwyr unrhyw amheuon neu ymholiadau dylent ymgynghori â'u hymgynghorydd lleol mewn arolygu a rheoli clefydau trosglwyddadwy (CDSC), neu ymgynghori â'r Ganolfan Arolygu a Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy yn Collingdale. Peidiwch â gor-sgrinio – gwastraff arian yw hynny.

Y plentyn sâl. Rhoddir arweiniad byr i arwyddion sy'n codi o'r hanes a'r archwiliad yn Ffigur 1. Ni fydd y cyfarwyddyd hwn yn trafod y broses o ymchwilio i, na rheoli heintiau a fewnforiwyd, y mae gofyn cynnal adolygiad ar wahân ar eu cyfer.

Ffigur 1:

Symptom/Arwydd	Dylid ystyried
• Yn dwymynol byth a hefyd	Amryw glefydau ond peidiwch â methu â chanfod malaria
• Ffitiau	Systisercosis
• Dermatitis • Haint y Llwybr Resbiradu Uchaf sy'n dod drosodd a throsodd • Lymffadenopathi sydd ar led • Candida geneuol • Niwmonia sy'n dod drosodd a throsodd • Twf araf	HIV
• Peswch neu symptomau resbiradol eraill	TB Llyngyr parasitig y mae'u cylchred oes yn cynnwys teithio trwy'r ysgyfaint
• Dolur rhydd acíwt. Os yw'n waedlyd, mae'n fwy tebygol o fod yn:	Rotafirws Giardia Amebâu a cryptosporidiwm E coli Enteropathogenig Shigela Salmonela Campylobacter
• Dolur rhydd sy'n dod drosodd a throsodd	Haint llyngyr y perfeddion Giardia
• Llyngyr mewn carthion	Haint llyngyr y perfeddion
• Y llindag geneuol neu bydredd sy'n mynd ar led	HIV
• Dermatitis; creithiau wedi gwella o bla cornwydog	HIV
• Brech	Gwibgymalwst Teiffoid Teiffws Brwselosis
• Lymffadenopathi	Heintiau rickettsaidd Brwselosis Gwibgymalwst HIV Leishmaniasis ymysgarol

• Clefyd Melyn	Hepatitis Malaria Y dwymyn felen Leptosbirosis Twymyn atglafychol
• Archwiliad resbiradol abnormal	TB Llyngyr yr ysgyfaint Nematodau
• Hepatomegaledd	Amebâu Malaria Teiffoid Hepatitis Leptosbirosis
• Sblenomegali	Malaria Teiffoid Brwselosis Leishmaniasis ymysgarol Gwibgymalwst

Atal damweiniau

Mae'r risg o ddamweiniau i blant mudol yn debygol o fod yn gysylltiedig â chydadwaith rhwng ffactorau sy'n cynnwys byw mewn tlodi, digartrefedd, ac anghynefindra â'u hamgylchoedd[5]. I rai, mae'r trawma meddyliol ac emosiynol trwy ddadleoliad yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio a'u hargaeledd emosiynol – sy'n ffactor risg ychwanegol. Mae plentyn sydd wedi arfer ag ychydig iawn o draffig ar y ffyrdd yn wynebu anawsterau wrth geisio ymdopi â thraffig trwm yn nhrefi'r DU. Caiff hyn ei ddwysau gan ddiffyg gwybodaeth rhiant am weithdrefnau diogel ar gyfer croesi'r ffordd ac anallu posib i ddarllen arwyddion ffyrdd. Mae effeithiau andwyol byw mewn hostelau i'r boblogaeth gyffredinol wedi cael eu disgrifio'n helaeth mewn mannau eraill. Mae teuluoedd mudol, yn enwedig teuluoedd mawr, a leolir mewn llety dros dro'n wynebu risg cynyddol o ddamweiniau gyda gorboblogi a diffyg lle'n nodweddion sy'n arbennig o amlwg[3]. Mae posibilrwydd gwirioneddol y gallai damweiniau ddigwydd i fabanod na ellir eu rhoi ar lawr oherwydd diffyg lle[6]. Gall rhai arferion diwylliannol gynyddu'r tebygolrwydd o ddamweiniau e.e. un o achosion posib sgaldio difrifol yw te du poeth iawn. Mae plant ag anghenion arbennig sy'n byw mewn amodau tai gwael yn arbennig o agored i risg, gan ei bod yn bosib nad ydynt wedi cael mynediad at wasanaethau a'u bod wedi dod yn rhwystredig o fewn lle cyfyng.

Mae ymwelwyr iechyd mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â materion strwythurol megis llety o ansawdd gwael ac amodau byw peryglus. Mae asesu'r holl blant mudol felly o'r pwys mwyaf er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys atgyfeiriadau at brosiectau cymunedol megis Dechrau'n Deg. Gall y mesurau cefnogol hyn ar gyfer y teuluoedd gael eu hybu ymhellach trwy ddefnyddio gwybodaeth sy'n hygyrch yn ddiwylliannol am wasanaethau a diogelwch yn y cartref ac ar y ffyrdd.

Natur agored i niwed merched yn eu harddegau

Mae merched a menywod yn aml yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol, gorfodaeth rywiol a thrais mewn ardaloedd o wrthdaro a gwersylloedd i ffoaduriaid, neu fe all hyn fod y rheswm y cawsant eu masnachu. Mae angen i wasanaethau fod wedi'u sefydlu i ddiwallu anghenion y merched hyn yn eu harddegau y gall fod arnynt angen gofal cyn-geni, terfynu beichiogrwydd, mynediad at glinig meddygaeth genhedlol-wrinol, cyngor a chymorth atal cenhedlu, a gwasanaethau cwnsela pan eu bod yn cyrraedd i'w helpu i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd iddynt.

Plant ag anableddau neu afiechyd cronig

Efallai na fydd plant wedi cael mynediad at wasanaethau therapiwtig ac adsefydlu ac felly bydd arnynt angen ymyrraeth ar frys e.e.

- Plentyn â methiant o ran ei dwf sydd â chlefyd coeliag anghanfyddedig (er y gall fod rhesymau eraill).
- Gall fod haint HIV anghanfyddedig ar blentyn.
- Gall gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol ei gwneud yn anodd asesu anghenion addysgol arbennig yn gywir.
- Ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n derbyn nifer fawr o geiswyr lloches, efallai na fydd gwasanaethau anghenion addysgol arbennig sydd dan bwysau'n gallu ymateb yn gyflym i leoli'r plant hyn mewn ysgol.
- Efallai na fydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol bod ganddynt hawl i ofal, neu fod ymyriadau effeithiol ar gael. Ar y llaw arall gall fod ganddynt ddisgwyliadau hollol afrealistig o feddygaeth Orllewinol, e.e. efallai y byddant yn cyrraedd yr adran i gleifion allanol gan ddisgwyl i'w parlys ar ôl polio gael ei wella. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn drallodus i bawb, ac mae angen ymateb iddynt mewn ffordd sensitif.
- Dylid meddwl am heintiau fel achos oedi datblygiadol, e.e. gallai oedi gyda diplegia fod o ganlyniad i enceffalopathi HIV; gall oedi gyda llid ar yr ambilen, colli clyw, murmur y galon ddilyn haint cynhenid â thocsoplasmosis, rwbela, neu syffilis.

Plant Roma a Fasnachwyd

Dim ond lle i amlygu rhywbeth sy'n fater hynod gymhleth sydd yma. Dechreuodd pobl Roma o rannau o Ddwyrain Ewrop gyrraedd yn y DU fel ceiswyr lloches yn y 1990au wrth iddynt ddianc erledigaeth hiliol yn eu mamwledydd. Roedd rhai ohonynt yn llwyddiannus yn hyn o beth; nid oedd eraill yn llwyddiannus. Mae Roma o'r union wledydd hyn, o ganlyniad i newid yn statws y gwledydd hyn o ran aelodaeth wirioneddol neu arfaethedig o'r Undeb Ewropeaidd, bellach yn dod i mewn i'r wlad yn gyfreithlon fel gweithwyr mudol o fewn yr UE. Nid oes amheuaeth bod Roma mewn nifer o wledydd yn Nwyrain Ewrop wedi profi gwahaniaethu hiliol, eu bod yn hynod ddifreintiedig yn economaidd, a'u bod wedi'u hymyleiddio i raddau helaeth yn gymdeithasol, ac yn parhau i brofi anfantais ar ôl cyrraedd yn y DU. Bydd plant sy'n cyrraedd yma'n ysgwyddo canlyniadau'r anfanteision hyn. I fenywod sy'n byw ar wahân oddi wrth rwydweithiau teuluoedd estynedig, gall natur hynod batriarchaidd *rhai* cymunedau Roma wneud eu bywydau'n beryglus iawn; mae hyn yn ei dro'n gwneud eu plant yn fwy agored i niwed.

Mae angen i bediatryddon fod yn ymwybodol o'r ffactorau hyn. Gall sefyllfa gymdeithasol anodd plant o'r fath olygu bod angen ymatebion wedi'u haddasu. Gall hyn fod yn weddol syml, megis oedi cyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty yn dilyn salwch acíwt. Mae ymateb i blentyn ag anghenion gofal iechyd hirdymor yn fwy o her o lawer. Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol gydweithio'n agos ag asiantaethau eraill i sicrhau bod plant yn derbyn yr holl wasanaethau y mae'u hangen arnynt, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd briodol.

[1] http://www.hpa.org.uk/infections/topics_az/vaccination/vac_guidelines.htm (cyrchwyd ar 12/04)

[2] Hall D, Elliman D. *Health for All Children: 4th Report*. Gwasg Prifysgol Rhydychen 2003.

[3] Levenson R, Sharma A. *Health of Refugee Children - Guidelines for Paediatricians*. Llundain 1999. RCPCH. Hefyd yn http://www.rcpch.ac.uk/publications/past_publications.html (cyrchwyd ar 12/04)

[4] Yr Adran Iechyd. *Health information for overseas travel.* Y Llyfrfa 2001 (hefyd yn https://www.the-stationery-office.co.uk/doh/hinfo/travel02.htm - cyrchwyd ar 18/1/04)

[5] Yr Adran Drafnidiaeth *Road accident involvement of children from ethnic minorities (review No.19).* Llundain 2002. DfT (Hefyd yn **http://www.dft.gov.uk/stellent/groups/dft_rdsafety/documents/page/dft_rdsafety_504597.hcsp** - cyrchwyd ar 9/1/05)

[6] McLeish J. Mothers in exile: Maternity experiences of asylum seekers in England. Maternity Alliance; 2002.

Atodiad 8 Cyfeiriadau ac Adnoddau Defnyddiol

Y Cyd-destun Cymreig

- Masnachu Pobl yng Nghymru – Gwefan Ymchwil ac Adnoddau
- Agenda For Action - Protection of Asylum Seeking & Trafficked Children In Wales (2008)
- Diogelu Plant a Allai Fod wedi Cael eu Masnachu (2008)
- Ffiniau Pryder – Masnachu Plant yng Nghymru (2009)
- Knowing No Boundaries - Local Solutions: Trafficking of Women & Children In Wales (2010)

Ymchwil

- Child Laundering (2005)
- Hope Betrayed – Poppy Project (2006)
- Missing Out – ECPAT (2007)
- Trafficking for the purposes of labour exploitation – Y Swyddfa Gartref (2007)
- Under The Covers - Amnest Rhyngwladol (2007)
- Young Peoples Voices - UNICEF (2007)
- Trafficking for Forced Marriage - ECPAT 2008
- Child Trafficking and Missing Children - ECPAT (2008)
- Vulnerability and Control of African Child Victims of Trafficking - ECPAT (2008)
- Rights here, rights now - Unicef (2008)

- The Role of LA's in Addressing Human Trafficking - Solace Study Group (2009)
- 2nd Strategic Threat Assessment on Child Trafficking - CEOP (Ebrill 2009)
- The UK Action Plan on Tackling Human Trafficking (2009).
- Breaking The Walls of Silence (Mehefin 2009)
- Stolen Futures: Trafficking for Forced Child Marriage in the UK - ECPAT (Gorffennaf 2009).

Manylion Cyswllt Asiantaethau Allweddol

Yr Awdurdod Cymwys Canolog – Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU (UKHTC)

Gordon Simmonite

Amadeus House

Mondial Way

Hayes

UB35AR

Ffôn: 0114 252 3891 / Sym: 07770 267286 / Ffacs: 0114 228 6456

E-bost:Tolerance@southyorks.pnn.police.uk

Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA)

Tîm Lloches Cymru:

Llawr 2

Adeiladau Cyffredinol

31-33 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24ODD

Arweinydd y Tîm - Lawrence Williams - Ffôn: 02920 924543 / Symudol 07768-557641

E-bost - lawrence.williams@homeoffice.gsi.gov.uk

Uwch Weithwyr Achos Eraill:

Adam Seinfield – Ffôn: 02920-924526

Rhiannon Chatterton - Ffôn: 02920 924523 / Symudol 07881-811168

rhianon.chatterton2@homeoffice.gsi.gov.uk

Jolene Dalton - Ffôn: 02920-924508

Gwasanaethau Cyfieithu

Barnardo's
Gwasanaeth Neville Street

7a Neville Street
Glan yr Afon
Caerdydd
CF11 6LP

Ffôn: 02920 229585
Ffacs: 029 2037 3470
E-bost: Gwasanaeth Neville Street.

Chinese Services Ltd - 01179799393 – Llinell Ffôn 24 awr: 0845-6868668 (cyfieithu a chyfweliadau wyneb yn wyneb).

Language Line - 08001692879 - 24 Awr (ar y cyfan dim ond gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros y ffôn y maent yn ei ddarparu)

Language Direct - 02085395142 - 24 awr (maent yn darparu ar gyfer 150 o leithoedd ac mae ganddynt brofiad o weithio gydag awdurdodau lleol a'r heddlu wrth gyfieithu dogfennau a chyfieithu Cyfweliadau wyneb yn wyneb).

WITS – Mae Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) yn darparu gwasanaethau ieithyddol llawn 24 awr y dydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Erbyn hyn gall sefydliadau ofyn am ddehonglwyr neu gyfieithwyr dros y ffôn neu drwy'r e-bost:

- **Ffôn:** 02920 857500
- **E-bost:** **wits@gwent.pnn.police.uk**

Wolfestone - 08450000083 – Oriau yn ystod y dydd yn unig (darperir ar gyfer pob iaith ac mae ganddynt brofiad o weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a'r llysoedd. Mae angen rhybudd o 1 wythnos i sicrhau cyfieithydd i gyfieithu ar y pryd).